

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 485 • Chwefror 2018 • 50c

Diolch



Wedi 14 mlynedd fel Unigolyn Cofrestredig i Gylch Meithrin Cefnfaes, mae Mary Jones (Mary Eds), Erw Las wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith a throsglwyddo'r awenau i Haydn Davies, Cilfodan. Mae yna neges hyfryd o ddiolch i Mary am ei holl waith dros y blynyddoedd ar dudalen 8.

Dathlu



Buddugoliaeth a ddaeth i ran Linda Pritchard, Allison Carden a Myfanwy Harper, Cangen Tregarth o Ferched y Wawr, yn ddiweddar. Dyma nhw wedi iddyn nhw ennill Cwis Cenedlaethol Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon. Llongyfarchiadau calonnog i'r tair ohonoch.

Dyfalbarhad



Dyma Chloe Smith ac Eleri Pritchard, Dolhelyg, Talybont, sydd wedi llwyddo i gasglu arian at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd mewn ffordd anghyffredin ac ysbrydoledig iawn. Ewch i dudalen 18 am yr hanes yn llawn.

Dathlu Gŵyl Ddewi

Dydd Sul, 4 Mawrth 2018



Gorymdaith

Cychwyn o'r maes parcio ger y Feddygfa am 1.00yp

Cyngerdd

yn Neuadd Ogwen am 3 o'r gloch.

**Dewch yn llu i ddathlu
Gŵyl ein Nawddsant**

Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.ilyr.evans@gmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Fiona Cadwaladr Owen.

Y golygydd ym mis Mawrth fydd
Dewi Llewelyn Siôn,
35 - 37 Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SE.
Ffôn: 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 28 Chwefror
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 15 Mawrth**, yng
Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

**Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:**

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWYR CWPAN**

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r
gloch a hanner dydd

Dyddiadur y Dyffryn

Chwefror

- 24 Gweithdy Enwau Lleoedd Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 - 4.00.
- 24 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen.
Cefnfaes. 10.00 -12.00.
- 26 Te Bach. Ffestri Carmel Llanllechid.
2.30 - 4.00.
- 27 Darlith Gyhoeddus gan Gwion
Lewis. Pontio, Darlithfa PL2 am 6 o'r
gloch.
- 28 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
- 28 Noson arbed ynni Cyd Ynni
Bethesda (a chyfarfod cyffredinol).
Clwb Criced am 6.30

Mawrth

- 1 Sefydliad y Merched Carneddi.
Cinio Gŵyl Ddewi.
- 3 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 - 12.00.
- 3 Cawl a Chân at Gyfeillion Ysbyty
Gwynedd. Clwb Rygbi Bangor am
7.30.
- 4 Gorymdaith Gwyl Ddewi. Cychwyn
o'r maes parcio ger y Feddygfa am
1 o'r gloch.
- 4 Cyngerdd Gwyl Ddewi. Neuadd
Ogwen am 3 o'r gloch.
- 5 Merched y Wawr Tregarth. Swper
Gwyl Ddewi.
- 8 Cymdeithas Jerusalem. Y Ffestri am
7.00.
- 10 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 - 1.00.
- 10 Bore Coffi Plaid Lafur. Cefnfaes.
10.00 - 12.00.
- 12 Cymd. Hanes D. Ogwen. (Darlith
Goffa Rh. Rowlands). John Ll.
Williams. Ffestri Jerusalem am 7.00.
- 14 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
- 15 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
- 17 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 - 12.00.

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATL.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Rhoddion i'r Llais

- £10.00 Steffan Roberts, Pen y Ceunant Isaf, Llanberis.
- £5.00 Miss J. B. Williams, Porthaethwy.
- £50.00 Er cof am Bronwen (Mynydd Llandygai gynt) oddi wrth ei gŵr, Alan Davies a'r teulu.
- £20.00 Er cof annwyl am Sandra Dore, oddi wrth Glenys a Jamie.
- £8.00 Don Hughes, Halifax.
- £4.50 Di-enw, Bethesda.
- £20.00 Er cof annwyl am Mrs. Eirlys Roberts, 6 Cilfodan, a fu farw 10 Chwefror 2016, oddi wrth ei phriod, Vic a'r teulu.
- £30.00 Er cof am Mr John Owen Roberts, Allt Pen y Bryn, oddi wrth y teulu.

Diolch yn fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Chwefror

- £30.00 (63) Awen Gwyn, Maes yr Hedydd, Tregarth.
- £20.00 (129) Donald Owen, Kempston, Bedford.
- £10.00 (35) Huw Derfel Jones, Y Wern, Gerlan.
- £5.00 (55) Enid Lloyd Davies, Bryn Derwas, Talybont.

**Os am ymuno, cysylltwch â
Neville Hughes – 600853**



CYMRAG

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Trefn Oedfaon:

18 Chwefror: Parchg Dafydd Coetmor Williams

25 Chwefror: Parchg John Lewis Jones

4 Mawrth: Mr Arwel Roberts

11 Mawrth: Parchg Huw Dylan

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Evans a'r mab, Bodforus, yn eu profedigaeth o golli ei phriod, David, mewn cartref ym Mhenmon, ychydig cyn y Nadolig. Bu Mrs Evans yn ffyddlon iawn ei hymweliadau â'r cartref tra bu ei gŵr yno, a chyn hynny yn ofalus iawn ohono cyn iddo fynd i'r cartref.

Cofion

Mae amryw dan anwyd trwm ac anfonwn ein cofion atynt - yn eu plith Mrs Nita Jones. Brysiwch wella.

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR

Llun - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 16:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



Neuadd Ogwen

DIGWYDDIAD PWYSIG

Gweithdy Enwau Lleoedd Dyffryn Ogwen

Dydd Sadwrn, 24 Chwefror

rhwng 10.00am a 4.00pm

Dyma gyfle i gofnodi a gwarchod enwau lleoedd yr ardal i'r dyfodol. Dewch ag unrhyw enwau sydd yn eich cof neu dewch â nhw ar fap os medrwh.

Galwch heibio pan fydd hi'n gyfleus.

*Trefnir gan Gymdeithas Enwau
Lleoedd Cymru*

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

Cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Ewrop

Mae'n amser cyffrous iawn i ferch ifanc o Fethesda. Ym mis Mai bydd Cerys Elen yn hedfan i'r Iseldiroedd i gystadlu gyda Band Ieuencid Beaumaris, ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Ewrop.

Mae'r band ifanc wedi gweithio'n galed iawn er mwyn cyrraedd y cam hwn, ac maent yn barod yn cael eu hystyried fel un o brif Fandiau Pres Ieuencid Prydain, gan gystadlu ar hyd a lled y wlad.

Dros y Nadolig buodd Cerys yn brysul iawn yn chwarae mewn cyngherddau a gwasanaethau Nadolig yn yr ardal, ac roedd yn falch iawn o'r cyfle i ymarfer ei doniau o flaen cynulleidfia.

Codi Arian er mwyn Cynnal y Daith

Mae'n debyg bod gan y Band waith codi arian aruthrol er mwyn ariannu'r daith i'r Iseldiroedd, gan fod y gost o gludo'r holl offerynnau allan yno yn sylweddol, heb sôn am y pumdeg o gerddorion ifanc. Mae Seindorf Beaumaris yn elusen, ac mae gan bob aelod darged personol o arian i'w gasglu.

Er mwyn cychwyn eu taith o godi arian buodd i Cerys ac un o'i chyd- chwaraewyr, Elen Llestyn, ymarfer eu doniau ar stryd fawr, Bangor.

Nododd Cerys ei fod yn dipyn o 'wefr' chwarae ei chorn flugel i'r siopwyr.

Noddi Chwaraewyr

Mae'r Band, gan gynnwys Cerys, yn chwilio am gwmnïau neu unigolion hael i'w noddi. Bydd y band yn cynnig hysbyseb ym mhob un o raglenni eu cyngherddau yn ystod 2018 ar gyfer noddwyr, yn ogystal â gosod logo neu ddiolch personol ar wefan Seindorf Beaumaris. Hefyd, maent yn cynnig dau docyn am ddim ar gyfer unrhyw gyngerdd gan y Band o ddewis y noddwr yn ystod 2018.

Os am gefnogi Cerys, neu aelodau eraill o'r band yna cysylltwch drwy anfon e-bost at: delythodavies@gmail.com (mam Cerys Elen) neu yn uniongyrchol at y band: beaumarisband@gmail.com

Gig Elusennol Band Pres Llareggub yn Neuadd Ogwen i Gefnogi'r Band

Mae nifer o chwaraewyr Band Pres Llareggub yn gyn-aelodau o Seindorf Beaumaris, ac yn byw yn yr ardal. Mae'r criw hael, gyda chefnogaeth Neuadd Ogwen, wedi cytuno i ymddangos mewn gig yn y Neuadd ar Nos Wener y 23ain o Fawrth, fel rhodd.

Bydd tocynnau i'r noson gyffrous yma ar gael drwy Siop Ogwen, gwefan Neuadd Ogwen, Palas Print, Awen Menai a Chwppwrdd Cornel.

Delyth Owen Davies



Pelenni Cig

½ pwys o borc a ½ pwys o friwrig eidion.

1 wy.

3 llwy fawr o semolina.

2 lwy de o oregana sych.

Halen a phupur du.

2 ewin o arleg wedi'u gratio.

1 nionyn wedi'i dorri'n fân.

2 lwy fawr o barmasan (neu parmigiano regiano) wedi'i gratio.

Cymysgwch y cwbl yn dda.

Rowliwch lond llwy de o'r cymysgedd efo'ch llaw.

Rowliwch o mewn brawd.

Ar ôl gwneud nifer o belenni rhwch nhw yn yr oergell am 20-30 munud.

Gollyngwch nhw i mewn i saws tomato neu bolognaise am 20 munud.

Peidiwch â'u troi o gwmpas.

Awgrym: Sbrinciwch semolina ar eich tatws ar ôl eu hanner ferwi cyn eu rhoestio yn y popty.



Cerys Elen



Cerys a'i chyd-chwaraewr Elen Llestyn yn diddanu siopwyr ar y stryd fawr ym Mangor

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Ysgol Dyffryn Ogwen

Ymweliad cwmni 'Mewn Cymeriad'

Roedd Prynhawn Gwener y 26ain o Chwefror yn brynhawn i'w gofio i ddisgyblion blwyddyn 8. Trefnodd adran Y Gymraeg bod cwmni 'Mewn Cymeriad' yn ymweld â'r ysgol i berfformio'r sioe Hedd Wyn. Sioe yw hon a ysgrifennwyd gan Anni Llŷn i goffau canmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn a'r Gadair Ddu. Sion Emyr oedd yr actor yn portreadu Hedd Wyn a chyflwynodd yr hanes yn fywiog a difyr. Edrychwn ymlaen at groesawu cwmni 'Mewn Cymeriad' atom yn y dyfodol agos.

Cynhadledd y Gymraeg, Prifysgol Abertawe

Ddydd Mawrth y 30ain o Ionawr, teithiodd

22 o'r myfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg yn y chweched dosbarth i Gei Connah er mwyn mynychu cynhadledd a drefnwyd gan Brifysgol Abertawe. Cafodd y myfyrwyr gyfle i wrando ar fyfyrwyr a darlithwyr yr adran yn trin a thrafod y gweithiau gosod ar y fanyleb. Bu'r Prifardd Aneirin Karadog yn trafod Gwaith Argoed Llwyfain yn ei ffordd ddihafal ei hun gyda blwyddyn 13 a chafodd blwyddyn 12 y cyfle i wrando ar y Prifardd Tudur Hallam yn mynd i'r afael â Siwan gan Saunders Lewis. Bu'n ddiwrnod hynod fuddiol i'r myfyrwyr.

Diwrnod Cenedlaethol Gofalwyr Ifanc

A'r Ionawr 25ain, dathlwyd Diwrnod Cenedlaethol Gofalwyr Ifanc gyda diod a bisged a sgwrs a chyfle i'r gofalwyr ifanc ddod at ei gilydd a gweld nad ydynt ar ben

eu hunain a bod yna ddigon o gefnogaeth ar gael iddynt yma yn yr ysgol.

Canlyniadau rygbi

Tîm dan 13 - Ysgol Dyffryn Ogwen 48-12 Ysgol Syr Thomas Jones

Tîm dan 15 - Ysgol Dyffryn Ogwen 32-0 Ysgol Syr Thomas Jones

Bydd y ddau dîm yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yng nghwpan Eryri, pob lwc!

Athletau dan do

Timau bechgyn dan 13, genethod dan 13 a genethod dan 15 wedi gorffen yn drydydd ym mhencampwriaeth atletau dan do Gwynedd. Nifer o berfformiadau campus a chystadleuaeth agos iawn.



Sioe Hedd Wyn - 'Mewn Cymeriad'



Criw o fyfyrwyr yn mwynhau'r gynhadledd

Ysgol Bodfeurig

Ymweliad Cynllun Gwên

Yn ystod wythnos iach, daeth Sarah o'r cynllun gwên i ymweld â phlant dosbarth Idwal a Tryfan i sôn am fwydydd iach a rhai sydd ddim yn iach yn ogystal â sut i ofalu am eu dannedd. Mae'r plant bob tro yn mwynhau ymweliadau gan Sarah ac yn edrych ymlaen at yr ymweliad nesaf.

Brecwast gyda'r tair arth

Roedd cyffro mawr Ddydd Gwener 19 Ionawr pan gyrhaeddodd y plant i'r ysgol a gweld llythyr gan y tair arth yn gofyn iddynt ymuno gyda nhw am ffreuwast. Mwynhaodd pawb y tost, yr uwd a'r sudd afal yng nghwmni'r tair arth. Diolch i Anti Anwen yn y gegin am helpu'r eirth i baratoi'r brecwast.

Dathlu Santes Dwynwen

Cafodd pawb yn nosbarth Idwal ddiwrnod llawn cariad Ddydd Iau 25 Ionawr, a

phawb yn brysur yn cwblhau gweithgareddau Santes Dwynwen gan wrando ar gerddoriaeth Cymraeg cariadus. Roedd y plant wedi bod yn brysur yn creu bisgedi calon ac yna eu haddurno i'w rhoi i'w rhieni yn ogystal â cherdyn lliwgar llawn cariad. Diwrnod llawn hapusrwydd!

Prosiect Smwddis

Rydan ni wedi penderfynu gwneud prosiect gwerthu smwddis iach i blant yr ysgol. Aethom ar y Chrome book a gwneud archeb ffrwythau Tesco ar lein i ddod i'r ysgol. Rydan ni wedi gwneud poster yn dweud pryd a beth sydd yn digwydd a rhoi'r poster i blant yr ysgol. Daeth dydd Gwener ac roedd hi yn amser creu'r smwddis, rydan ni wedi gwneud 2 blas- mefus, banana a llys a mafon a banana a gwerthu nhw am 50c bob un. Rydan ni wedi gwerthu'r smwddis i gyd ac wedi gwneud

elw o £7 i brynu rhywbeth i'r dosbarth. Roedd pawb wedi mwynhau creu ac yfed y smwddis.

Lauren a Nieve (blwyddyn 2)

Chwaraeon

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed blwyddyn 3/4 am gystadlu yng nghystadleuaeth 6 bob ochr yr URDD ym Mangor yn erbyn nifer o ysgolion lleol.

Cafodd y plant lawer o hwyl a nifer ohonynt yn chwarae pêl-droed mewn tîm am y tro cyntaf!

Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl rwyd yr ysgol fu'n cystadlu'n ddiweddar - hefyd am y tro cyntaf erioed! Diolch i Miss Davies am eu hyfforddi yn y clwb ar ôl ysgol ac i'r criw am eu hymdrech wych!



Y tîm pêl-droed

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2018

- 24 Chwefror - Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen
- 03 Mawrth - Cefnfaes - Plaid Cymru.
- 10 Mawrth - Cefnfaes - Plaid Lafur
- 17 Mawrth - Cefnfaes - Gorffwysfan.
- 24 Mawrth - Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.
- 14 Ebrill - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 21 Ebrill - Cefnfaes - Cymdeithas Capel Jerusalem.
- 28 Ebrill - Cefnfaes - Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
- 12 Mai - Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.
- 12 Mai - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
- 19 Mai - Cefnfaes ddim ar gael.
- 30 Mehefin - Neuadd Ogwen - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 14 Gorffennaf - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
- 08 Medi - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
- 29 Medi - Cefnfaes - Plaid Cymru.
- 20 Hydref - Cefnfaes - Eglwys St. Cedol.
- 27 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 24 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Mawrth 10fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Ebrill 14eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Mai 12fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

CHWEFOR 27
MAWRTH 13 a 27

am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun, 12 Mawrth
am 7.00 yh

yn Festri Capel Jerusalem

Darlith Goffa

Rhiannon Rowlands

Ai y STAR ddylai'r enw fod?

Hanes Datblygiad Bethesda

Dr. John Ll. Williams

£1.50 wrth y drws neu
am ddim i aelodau

Carmel Llanllechid

Te Bach

Dydd Llun, 26 Chwefror

2.30 - 4.00

Croeso i bawb!

Carmel Llanllechid

Gwasanaeth Gŵyl Ddewi

yng nghwmni'r plant
a'r bobol ifanc

Bore Sul, 4 Mawrth
am 10.30 o'r gloch

Paned a chacen yn y Festri
ar y diwedd

Croeso i bawb!

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI PLAID CYMRU

SADWRN, 3 MAWRTH
10.00 - 12.00
MYNEDIAD: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI EGLWYS CRIST GLANOGEN

SADWRN, 24 CHWEFOR
10.00 - 12.00
MYNEDIAD : £1.00

"Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050:

yr atebion cyfreithiol".

Darlith Gyhoeddus

gan Gwion Lewis

PONTIO, darlithfa PL2

27 Chwefror am 6.00yh

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

NOSON CAWL A CHÂN

(i ddatlu Gŵyl Ddewi)

yng nghwmni

HOGIA'R BONC

yng Nghlwb Rygbi Bangor
(Llandygai)

Nos Sadwrn, 3 Mawrth

Am 7.30

Tocynnau : £7.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI PLAID LAFUR

SADWRN, 10 MAWRTH
10.00 - 12.00
MYNEDIAD: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI GORFFWYSFAN

SADWRN, 17 MAWRTH
10.00 - 12.00
MYNEDIAD: £1.00

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen CYFARFOD BLYNYDDOL

yng Nghefnfaes

**Nos Fercher, 28 Chwefror
am 7.00 yh**

Siaradwr Gwadd:

Aaron Wynne

(Trefnydd Etholaeth Arfon)

APÊL AM WIRFODDOLWYR

gan **GYMDEITHAS Y
DEILLION, BANGOR**

Oes gennych chi ychydig o oriau rhydd yn ystod yr wythnos? Hoffech chi wirfoddoli er budd pobl â nam ar eu golwg?

Mae Cymdeithas y Deillion, Bangor yn chwilio am wirfoddolwyr i ddarllen Llais Ogwan, ac erthyglau eraill Cymraeg fel y rhai a geir yn Golwg a'r Herald Gymraeg i'w rhoi ar CD wythnosol.

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Chymdeithas y Deillion neu galwch draw i'r ganolfan ym Mangor.

Manylion cyswllt:
325 Stryd Fawr, Bangor
Rhif Ffôn: 01248 353604
Cyfeiriad e-bost:
admin.nwsb@btconnect.com

Diolch yn fawr

Modurdy Central

**M.O.T. ar gael
Hefyd**

**Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031**

TEMPLE MORRIS A'I FAN

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎601583

Diolch

Dymuna Glenys a Jamie Dore, gynt o Ffordd Gerlan, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl garedigrwydd hael a ddangoswyd iddynt yn yr amser tywyll iawn o golli merch a chwaer annwyl, y ddiweddar Sandra. Diolch yn fawr iawn, hefyd, i Ann Williams am y geiriau annwyl a ysgrifennodd yn y Llais am Sandra. Rydym yn eu gwerthfawrogi yn fawr. Diolch am yr holl roddion hael; fe gasglwyd £1192.08c, a rhoddwyd yr arian i Ward Moelwyn er cof am Sandra. Diolch am ffrindiau da ar adeg anodd fel hyn. Diolch o waelod calon i chi i gyd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Donna a Mark, Stryd Goronwy, ar enedigaeth merch fach, Alisha, sydd yn chwaer fach i Keira, Tiffany, a Naomi. Rydym yn siŵr fod y chwiorydd mawr wedi gwirionio ar gael chwaer fach newydd.

Nain a thaid

Llongyfarchiadau i Trefor a Sandra, Stryd Goronwy, ar ddod yn daid a nain unwaith eto, pan aned merch fach, Alisha, i'w merch, Donna, a'i phartner, Mark.

Cydymdeimlo

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Claire, Nick, a Mathew, Ffordd Gerlan, yn eu profedigaeth o golli nain a hen nain annwyl, y ddiweddar Heather Young, Bron Bethel, Rachub.

Brysiwch wella

Mae Nel Roberts, Rallt Uchaf, wedi treulio

cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth yn ddiweddar. Rydym yn falch o weld ei bod bellach yn ei hól adref, ac rydym yn dymuno gwelliant llwyr a buan iddi.

Profedigaeth

Ddechrau'r flwyddyn daeth y newyddion trist am farwolaeth un o gyn-drigolion y Gerlan, sef y diweddar Owie Williams, neu, fel yr oedd yn cael ei alw'n annwyl, Owie Bach. Roedd Owie wedi symud o Stryd y Ffynnon i fyw i Faes y Garnedd rai blynnyddoedd yn ôl, ond bachgen o'r Gerlan ydoedd, wedi ei eni a'i fagu yma, ac wedi treulio y rhan helaethaf o'i oes yn byw yn y pentref. Roedd ei gysylltiad â'r Gerlan yn parhau yn gadarn, gan iddo fod yn Drysorydd y Caban am nifer o flynyddoedd. Ef, hefyd, oedd un o sylfaenwyr Y Clwb Cymdeithasol, sef y gymdeithas hynod lwyddiannus sy'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn y Caban, a bu'n ysgrifennydd i'r Clwb am sawl blwyddyn. Bydd colled fawr ar ôl Owie, yn arbennig ei wên a'i hwyl bob amser. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i deulu, sef y tri mab, William, Tom, a Richard, a'u teuluoedd, a'i bartner, Joyce, yn eu colled fawr.

Ar y teledu

Mae mam a merch o'r Gerlan yn ymddangos ar y teledu ar hyn o bryd. Mae Linda Brown, Gwernydd, yn rhan o'r rhaglen Fferm Ffactor, tra bod ei merch, Lisa, hefyd o'r Gwernydd, yn rhan o'r gyfres hynod o boblogaidd Gwaith Cartref. Da iawn y ddwy ohonoch!

Dymuniadau gorau

Rydym yn anfon ein cofion gorau at Glyn Ellis, Ciltrefnus, sydd wedi treulio cyfnod mewn ysbyty yn Lerpwl. Bellach mae Glyn adref, ac rydym yn dymuno gwellhad buan i ti, gan edrych ymlaen i'th weld o gwmpas yr ardal yn fuan.

Gwynedd Ddigidol ar restr fer gwobrau cenedlaethol

Mae cynllun Gwynedd Ddigidol sy'n helpu i geisio gwella mynediad at y rhyngwrdd i drigolion a busnesau lleol, wedi cael ei gynnwys ar restr fer ar gyfer gwobrau cenedlaethol y trydydd sector yng Nghymru.

Mae'r cynllun, sy'n cael ei ddarparu gan Citizens Online mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Trydydd Sector Cymru yn y categori

Cynhwysiad Digidol.

Mae'r cynllun yn cynnig sesiynau am ddim o amgylch y sir er mwyn gwella sgiliau cyfrifiadurol ac ar-lein, ac maent yn cydweithio ag amryw o fudiadau eraill i gyddlynu gweithgareddau cynhwysiant digidol. Mae Gwynedd Ddigidol hefyd yn annog pobl i wella eu sgiliau a grymuso gwirfoddolwyr a staff er mwyn eu gwneud yn 'bencampwyr digidol',

sy'n hanfodol er mwyn ysgogi a chefnogi pobl yn y gymuned i ddefnyddio technoleg. Ers Ionawr 2016, mae'r cynllun wedi penodi 140 o bencampwyr trwy'r sir.

Mae sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal gan Gwynedd Ddigidol mewn lleoliadau ledled y sir. Mae sesiynau rheolaidd yn cael eu cynnal yn:

**Neuadd Mynydd
Llandygái: Dydd Mawrth,
10am - 12pm**

Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydilas, Bethesda
☎ 601902



Priodas

Dyma lun o Rhian Williams, merch Cemlyn a Lilian Williams, Erw Las, ar achlysur ei phriodas gyda Geraint Richards o Gaerdydd. Llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Yn yr ysbyty

Braf yw cael dweud bod Mrs Hilda Campbell, Erw Las, bellach wedi cael dod adref ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Gwellhad buan i chi Hilda.

Dymuniadau gorau i Nicola a Dave, Sŵn y Nant, y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ystod mis Ionawr. Dymunwn wellhad buan iddynt.

Cartref Newydd

Croeso cynnes i Mrs Cathy Owen i'w chartref newydd yn Lôn Newydd Coetmor, a chroeso hefyd i'w chartref ym Mhant Glas i Bethan Thomas.

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn triniaeth:- Mrs Daisy Jones, Mas y Garnedd; Mr Selwyn Owen, Ffordd Ffrydilas; Mrs Hilda Campbell, Erw Las; Mrs Menai Williams, Erw Las; Mr Brian Tillman, Stryd Fawr; Mrs Amber Prytherch, Maes Coetmor; Mrs Buddug Hughes, Ffordd Carneddi; Mr Elfed Jones, Ffordd Ffrydilas; Mrs Maggie Jones, Bryn Bella.

Marwolaethau

Owen Williams (Owi)

Ar 17 Ionawr, yn Ysbyty Eryri Caernarfon, bu farw Mr Owen Williams (Owi bach), 14 Maes y Garnedd, gynt o'r Gerlan, yn 84 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs Mair Williams a chymar Mrs Joyce Jones. Tad a thad yng nghyfraith hoffus Wil a Nia, Tom a Karen, a Rich a Joanne. Taid balch Ceri, Nicola, Stephen, Dylan, Alan, Elen, Emma a Mari. Hen daid i Ela, Morgan a Nansi. Brawd i Nancy a'r diweddar Beti a Billy a brawd yng nghyfraith Mrs Olive Williams, Maes y Garnedd. Cynhaliwyd ei angladd fore Iau, 25 Ionawr gyda gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor dan arweiniad y Parchg Ddr Huw John Hughes, a chafwyd teyrnged i taid gan ei wŷr, Stephen. Claddwyd ei lwch fore Gwener ym Mynwent Coetmor.

Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu yn eich colled fawr.

Helen Rosalie Williams

Yn Ysbyty Gwynedd ar 17 Ionawr, yn 75 oed, bu farw Helen Rosalie Williams, Isfryn, Dolgoch, Ffordd Bangor. Mam annwyl i Gerallt a'i gyman, Noona, nain hoffus i Martin a Christopher, a hen nain i Joel. Bu'r angladd yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlogsgfa Bangor, ddydd Gwener, 26 Ionawr. Cydymdeimlwn â chwi Gerallt a'r teulu i gyd.

Eirlys Cefni Jones

Ar 21 Ionawr, yn ei chartref yn 95 Ffordd Carneddi, bu farw Mrs Eirlys Cefni Jones, yn 84 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr Bert Cefni Jones, chwaer garedig ac annwyl i Mr Emrys Jones, Y Groeslon, a chwaer yng nghyfraith y ddiweddar Mrs, Elen Jones. Modryb i Gwenno, John, Huw, Helen, Alan a Caryl, a hen fodryb i Dylan, Elli, Ffon, Megan ac Angharad, ac yn ffrind annwyl i Jean, Gwenno, Medi a Rita.

Gwraig dawl a pharchus oedd Eirlys ac yn un a oedd yn mwynhau cymdeithasu.

Cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Llun, 29 Ionawr, gyda gwasanaeth yng Nghapel Carmel a Mynwent Coetmor dan arweiniad y Parchedig Dafydd Coetmor Williams gyda Mrs Helen Wyn Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd.

Diolch

Y diweddar Owen Williams (Owi Bach), Maes y Garnedd

Dymuna Wil, Tom a Rich a'u teuluoedd, ynghyd â Joyce, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar yr achlysur o golli tad, taid, hen daid a chymar arbennig iawn. Cysur mawr oedd yr ymweliadau, y galwadau ffôn a'r cardiau niferus. Diolch i bawb a gyflwynodd

roddion er cof am Owi tuag at Ward Peblig, Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch arbennig i'r holl staff yno am eu gofal tyner o Owi, a'r teulu yn ystod ei ddyddiau olaf.

Diolch yn gynnes iawn i Richard a Dewi, cwmni H.O. Davies, Bangor, am eu trefniadau parchus ac urddasol. Hefyd, i'r Parchedig Huw John Hughes am ei wasanaeth yn yr Amlogsgfa.

Diolch yn fawr iawn i staff Clwb Criced a Bowlïo Bethesda am y lluniaeth ardderchog.

Diolch o galon i bawb.

Gorffwysfan

Pwyllgor fore Llun, 26 Chwefror am 11.00 o'r gloch.

Bore Coffi – Cefnfaes, Sadwrn 17 Mawrth.

Cylch Meithrin Cefnfaes

Diolch i Mary Eds

Hoffwn ni fel Pwyllgor a Staff Cylch Meithrin Cefnfaes ddiolch yn fawr iawn i Mary Eds am fod yn Berson Cofrestredig dros y cylch am yr 14 mlynedd diwethaf yn ddi-dâl. Mae Mary wedi rhoi oriau ac oriau o'i hamser sbâr i ni ac mae pawb o'r pwyllgor presennol (a gorffennol), yr holl Antis a'r rhieni i gyd yn hynod ddiolchgar am ei gwaith diffino i'r Cylch. Mae Mary yn gallu rhoi ei thraed i fyny rŵan (wel, o'r gwaith yma beth bynnag) gan mai Haydn Davies o Gilfodan ydi'r Person Cofrestredig newydd.

Yr Eglwys Unedig

Cofion

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sy'n methu ag ymuno â ni yn yr oedfaon, oherwydd oedran, llusgedd neu waeledd.

Gwasanaeth Plygain

Cafwyd cyflwyniad dechreuol gan Ceri a chroesawyd pawb i'r Plygain. Daeth nifer dda i'r cyfarfod a chymerwyd rhannau gan pum parti, Merched y Baned, Teulu'r Vontrapps, Pedwarawd Rhos-y-Nant, Boncathod a rhai aelodau o Gôr y Penrhyn. Noson ardderchog yn wir, pawb wedi mwynhau yn fawr. Gwnaed casgliad anrhydeddus i'r Eglwys. Cafwyd paned a bara brith cyn mynd adref.

Diolch o galon i Ceri am drefnu gyda Walter yn ei chynorthwyo, i bawb am ddod, ac i Menai am gyfeilio.

Y Gymdeithas

Croesawyd pawb gan Rhiannon y llywydd, a chyflwynwyd Fflur ar ei hymweliad â ni. Hanes a lluniau o fywyd teulu pob dydd oedd gan Fflur – teulu ei chwaer ym Mhatagonia. Bu Fflur a'r genod yno ar ymweliad. Cawsom hanes yr ysgol, y pentrefi a o phob dim am fywyd trigolion Patagonia. Braf oedd dysgu am hyn i gyd – a chael blasu'r diod Mate a'r deisen

yr oedd Fflur wedi'i wneud yn union fel ym Mhatagonia. Noson i'w chofio ac addysgiadol dros ben. Diolchwyd i Fflur gan Emyr ac i ferched y baned, Ceri, Carys, Minnie, Olwen, Heulwen a Rhiannon.

Y Cyfarfod Eglwysig

Fore Sul, 25 Ionawr, cafwyd cyfarfod Eglwysig. Jean oedd yn llywyddu ac yn cymryd y rhannau arweiniol gyda Minne'n cyfeilio. Gwenno oedd yn bendithio'r offrm.

Cafwyd adroddiadau llawn gan Walter, yr ysgrifennydd ac Emyr, y trysorydd. Rhoddwyd y wybodaeth ar sut mae pethau ar hyn o bryd - ynglŷn â'r adeiladau ac hefyd ar fywyd prysur yr eglwys a'r ysgol Sul. Cyflwynwyd plant yr ysgol Sul gan Alwenna - braf oedd eu gweld, peth sy'n codi calon pawb yw gweld y plant yn hapus yn eu gwaith ac yn mwynhau. Rhoddwyd adroddiad am y gwaith o gael pregethwr i'n harwain yn yr oedfaon gan Menai. Diolch iddynt am eu gwaith drwy'r flwyddyn. Diolch i'r blaenoriaid am eu gwaith ac am eu hymroddiad i'r eglwys mewn llawer maes, ac i'r dynion am eu gwaith hwythau yn gwneud gwaith o gwmpas yr adeiladau. Diolch am bresenoldeb yr aelodau bob amser. Gwerthfawrogrir hyn yn fawr.

Cyhoeddiadau i ddod

- 18 Chwefror Trefniant Mewnol
- 25 Chwefror Mr Gwilym Williams
- 4 Mawrth Parch D Coetmor Williams
- 11 Mawrth Trefniant mewnol (10)
- Parch Ddr Elwyn Richards (5)
- 18 Mawrth Parch Cledwyn Williams

Sefydliad y Merched Carneddi

Ar Chwefror 1af rhoddodd ein llywydd groeso cynnes i bawb yn ôl ar ddechrau blwyddyn newydd arall o'r sefydliad gan groesawu 5 aelod newydd i'r gangen. Braf iawn oedd cael wynebau newydd i'r sefydliad a gobeithio y byddwch yn hapus yn ein mysg.

O'r Cyngor

Cystadleuaeth Ffenestr Nadolig

Diolch yn fawr iawn i'r holl fusnesau ym Methesda am gymryd rhan yn y Gystadleuaeth 'Ffenestr Siop Nadolig Orau', roeddynt i gyd yn werth eu gweld.

Dyma'r canlyniadau:

- 1af **Serena Hair & Beauty**
- 2il **Barbwr Ogwen**
- 3ydd **Caffi Fitzpatrick's**



Yr enillwyr gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor

Ym mis Ionawr gohiriwyd y cyfarfod oherwydd annwyd mawr gan dair neu bedair o'r aelodau, ond braf oedd cael dweud eu bod yn holliach erbyn hyn ac yn barod i gael noson ddifyr gan ein gŵr gwadd am y noson, sef Arwyn Oliver.

Cyn inni gael ein diddanu gan Arwyn Oliver cawsom ymddiheuriad gan Gwen Davies, ond fe welwn ni Gwen yn ôl mis nesaf. Aeth Gwyneth ymlaen i ddarllen cofnodion mis Tachwedd a Rhagfyr, a darllenodd Rita y llythyr misol. Dathlu gŵyl ein nawdd sant Dewi fydd y sefydliad ym Mis Mawrth ac felly, dosbarthwyd rhestr y fwydlen i'r aelodau cyn mynd ati i groesawu ein gŵr gwadd.

Brodor o Fynydd Llandygái yw Arwyn a fu'n athro ac, yn wir, yn brifathro yn ysgolion Pen-y-bryn a Llanllechid. Mae wedi ymddeol ers tro erbyn hyn ac yn ymddiddori mewn byd natur, cerdded, a hefyd teithio i wledydd pell a llefydd digon peryglus fel Everest!! Cawsom noson o gwis gyda chwestiynau cyffredinol, edrych ar luniau adar a choed a phobl enwog ac yn y blaen. Ac fe gafwyd hwyl fawr gyda thri thîm yn ceisio ateb y cwestiynau. Roedd y tri thîm bron iawn yn gyfartal ond yr hwyl oedd yn bwysig! Diolchwyd i Arwyn gan Gwyneth ac i'r merched am y baned. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Rita, gan Bessie.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

Capel Shiloh, Tregarth

Oedfaon am 5 o'r gloch oni
nodir yn wahanol

Chwefror 18 Cledwyn

Williams, Bangor

Chwefror 25 Idris Thomas,

Dinorwig

Mawrth 4 Richard Gillion

Mawrth 11 Gwynfor Williams,

Caernarfon

Mawrth 18 Dafydd Hughes,

Caernarfon

Mawrth 25 Oedfa Deulu Sul
y Blodau

Gair i ddiolch i bob un o
aelodau Shiloh a gyfrannodd
anrhegion Nadolig ar gyfer
plant a phobl ifanc dan y
cynllun Gweithredu dros
Blant. Gobeithiwn wneud hyn
yn achlysur blynyddol o hyn
ymlaen.

Diolchwn o waelod calon
i bob un ohonoch am eich
cyfraniadau o Sul i Sul ar gyfer
y Banc Bwyd.

Drws Agored

Bob bore Gwener, rhwng 10 o'r

gloch a 12 o'r gloch mae drysau
Shiloh ar agor i bawb a hoffai
gwmni, sgwrs a phaned. Trowch
i mewn am groeso cynnes yr
aelodau!

Clwb Cant Canolfan Tregarth

Anna Jones 40 £15

Gwenda Davies 23 £10

Margaret Jones 8 £5

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Chwefror 18 Boreol Weddi

Chwefror 25 Cymun Bendigaidd

Mawrth 4 Boreol Weddi

Mawrth 11 Cymun Bendigaidd

- Sul y Mamau

Mawrth 18 Boreol Weddi

Pob gwasanaeth yn dechrau am
9.30yb

Rydym am gynnal ciniawau
Garawys ddydd Iau 22
Chwefror, 1 Mawrth, 8 Mawrth
a 15 Mawrth. Cychwyn am 12yp
a'r pris yn £5.

Profedigaeth

Daeth y newyddion trist am un
o drigolion hynaf Erw Faen ar
Ionawr 25, sef Ernest Simpson
a fu farw yn 91 mlwydd oed ac
yn byw yn 24 Erw Faen. Roedd
yn briod â'r diweddar Jane
ac mae'n gadael ei blant sef,
Roy, Shirley, Colin a Sandra a'i
wyrion. Cydymdeimlwn â chi fel
teulu.

Cydymdeimlwn fel ardal ag
Elin Gwyn, merch Bethan Gwyn
a'r diweddar Gwynfor ab Ifor,
Capel Gorffwysfa, Sling, yn
ei phrofedigaeth fawr o golli
ei chymar, Iwan Huws, drwy
ddamwain ar fynydd Tryfan ym
mis Ionawr. Meddwl amdanat
Elin.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Bu'r aelodau'n dathlu'r Nadolig
gyda swper ardderchog yng
Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda
ar 4 Rhagfyr. Yn ystod y noson
bu cyfle i ddathlu llwyddiant tair
o aelodau'r cangen a lwyddodd
i ennill cystadleuaeth Cwis
Cenedlaethol Merched y Wawr
Rhanbarth Arfon. Y tair aelod
yw Allison Carden, Myfanwy
Harper a Linda Pritchard. Roedd
pawb wrth eu boddau o glywed
y newyddion ardderchog a
llongyfarchwn y tair am roi ein

Cangen ni yn Nhregarth ar y
map. Gwych genod!!

Mae'r Cangen yn cyfarfod
nesa yn Festri Capel Shiloh
Nos Lun, 5 Chwefror. Noson o
Waith Celf fydd hon gyda dwy
o diwtoriaid profiadol dros ben
sef Margaret Jones, Cae Drain
a'i merch Jên Margiad Temple
Morris, Tan y Garth, Bethesda a'r
noson yn cychwyn am 7.30.

Gwleda y byddwn ni eto
fel Cangen i ddathlu Gŵyl
Ddewi ar Nos Lun, 5 Mawrth
a hynny ym Mwyty Pot Jam,
Porthaethwy. Mae hen edrych
ymlaen at yr achlysur hwn
a chyfle i ni gefnogi busnes
newydd a sefydlwyd yn ystod
2017. Am fwy o fanylion cysyllter
ag Anwen Griffiths (601262) neu
Valerie Ellis Jones (600233), dwy
ysgrifenyddes y cangen, a hynny
ar fyrder gan fod cyfyngiad ar y
nifer a all fwyta ym Mwyty Pot
Jam.

Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch 2018

Gyda thymor cyflwyno
dramâu mewn sawl tre a
phentref yn ei hanterth,
dyma gyfle i dynnu sylw
at Wyl Ddrama Corwen
a fydd yn cael ei chynnal
eleni rhwng 7-12 Mai. Lleolir
yr Wyl flynyddol hon yn
Neuadd Edeyrnion yng
nghanol tre Corwen ac
rydym yn dathlu 37 mlynedd
ers ei sefydlu.

Y Beirniad eleni yw Steffan
Parry. Wedi ei fagu ar fferm
Tu Ucha'r Llyn ym mhentref
Gwyddelwern, ger Corwen,
Steffan oedd enillydd Gwobr
Goffa Richard Burton yn
Eisteddfod Genedlaethol
Cymru, Meifod yn 2013. Wedi
graddio o Goleg y Drindod,
Caerfyrddin, yn dilyn cwrs
drama, bu'n actio ar y gyfres
deledu Rownd a Rownd yn
ogystal â chynrychiadau eraill
cyn troi at fyd addysg.

Mae gan yr Wyl
gystadlaethau chwarae
drama un act Gymraeg i
wahanol oedran yn ogystal â
chystadlaethau cyflwyniad i
grŵp o ddysgwyr y Gymraeg.

Eleni cynigir cystadleuaeth
newydd sbon eleni sef
Cyflwyno Monolog bedwar
munud o hyd i actorion 19 oed
ac iau. Testun: agored.

Bydd tlysau/cwpanau i
actor a chwmni gorau ymhob
oedran yn ogystal â gwobr
ariannol.

Yn ogystal â'r cystadlaethau
llwyfan, mae gan yr Wyl
flynyddol hon gystadlaethau
ysgrifennu drama un act.
Dylid anfon y gwaith at yr
ysgrifennydd erbyn 1 Ebrill.

Beth am fynd amdani
gwmnïau drama? Dewch
draw i Gorwen ym mis Mai i
gystadlu am wobrau yn un o
wyliau drama hynaf Gogledd
Cymru. Bydd croeso cynnes
yn eich disgwyl ym mro
Edeyrnion.

Am fwy o fanylion neu
ffurflen gais, (dyddiad cau
dychwelyd ffurflen gais yw
Mawrth 31), cysylltwch â'r
Ysgrifennydd, Nesta Evans,
Frondeg, Maerdy, Corwen.
LL21 0NY. Ffon: 01490 460361
Gwebylfr: Gŵyl Ddrama
Corwen a'r Cylch

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandy.com

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



GWASANAETH GLANHAU HUGHES

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.

Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV

Golchi 'meddal' - patios, "decking" a llwybrau

Golchi toeau ystafelloedd gwydr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf,
Pentir, LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Mynwentydd Pentir
Cyngor Cymuned Pentir sy'n gyfrifol am y ddwy fynwent newydd ac mae canmol mawr am y gofal ohonynt. Mewn storm ddiweddar syrthiodd coeden fawr ar draws y fynwent ond yn lwcus iawn ni fu unrhyw ddifrod i'r beddi nac i gapel y gladdfa.

Mae angen diolch i aelodau Eglwys Sant Cedol am y gwaith sydd wedi cymryd lle yn y fynwent o amgylch yr adeilad. Mae'r fynwent wedi ei thrawsnewid yn ddiweddar pan dorwyd yn ôl y mieri a'r gordyfiant. Mae hyn wedi caniatáu i garped o eirlysiau ymddangos ar ochr gogledd orllewin y fynwent - crystal sioe ag y gwelir yng ngerddi Castell Penrhyn unrhyw ddydd.

Arwydd o'r gwanwyn
Mae'n parhau yn rhy oer i'r ymfudo blynyddol gan lyffantod a brogaod o Dai Isa' ar hyd Lôn Rallt i gyfeiriad Tan y Foel. Eto, mae arwydd arall bod y rhod yn troi gan fod criw o wyddau gwyllt (*greylags*) wedi cyrraedd llyn Tan y Foel. Roedd tua

hanner cant neu fwy yno'r diwrnod o'r blaen ond fel arfer tua ugain ohonynt fydd yn nythu'n flynyddol. Unwaith bydd y cywion yn hedfan byddant yn diflannu'n gyfan gwbl am flwyddyn arall.

Arddangosfa
Os oes gennych hen ffotograffau o ardal Pentir a Charfan cysylltwch â Cynrig (01248 601318). Byddant yn cael eu hychwanegu i'r arddangosfa yn Neuadd Bentref Rhiwlas, ddydd Sadwrn 3ydd Mawrth rhwng 10.00am a 3.00pm.

Eglwys St. Cedol, Pentir
1af Rhif 6 Lyndon Miles
2il Rhif 32 Paul Barnet
3ydd Rhif 28 Dafydd Roberts, Llanberis

Gwellhad
Rydym yn anfon ein cofon at Y Parchedig Martyn Riley, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, hefyd i Mai Williams ac Eira Crocombe, y ddwy ddim yn dda eu hiechyd. Brysiwch wella eich tri.

Genedigaethau
Llongyfarchiadau i Kim a Dylan ar enedigaeth eu mab bach Jac ar yr 26 Rhagfyr, brawd bach i Ella a ŵyr i Alison

a Michael, Rhiwlas. Yr un yw'r cyfarchion i Alison ac Alwyn, Tregarth ar enedigaeth eu hwyres fach Lŵsi, sef merch fach i'w merch Fflur a'i gŵr Liam a aned ar 20 Rhagfyr. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Bore Coffi
Bydd yr Eglwys yn cynnal Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda, ar 24 Mawrth. Croeso cynnes i bawb.

Hwyl yr Ŵyl
Brynhawn Sadwrn 31 Mawrth - Sadwrn y Pasg - Cynhelir prynhawn o hwyl yn y Ganolfan Glasinfryn am 2yh. Bydd Helfa Pasg ar gyfer y plant, gêm o fingo, tombola ac ambell stondin a lluniaeth ysgafn. Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn yr hwyl.

Gwasanaethau'r Sul
Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau:

- 18 Chwefror Cymun Bendigaid
- 25 Chwefror Boreol Weddi
- 4 Mawrth Cymun Pawb
- 11 Mawrth Boreol Weddi - Sul y Fam
- 18 Mawrth Cymun Bendigaid

CHWILAIR

POBL FLAENLLAW
Y GORFFENNOL

A	T	O	M	D	A	V	I	E	S	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C
M	R	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H
M	D	H	I	E	U	A	N	L	L	J	O	N	E	S	W	H	Y	U	Z
M	X	V	I	A	S	N	A	V	E	N	Y	L	M	E	D	D	R	N	A
P	S	A	U	A	Q	U	S	O	R	F	R	P	Y	B	Q	Z	R	G	R
H	C	T	U	M	N	W	N	O	N	Y	R	I	U	A	S	Z	A	U	T
F	D	X	R	U	P	N	W	R	E	H	C	L	Q	H	W	S	P	E	H
S	O	Y	E	E	E	G	O	E	S	O	L	M	H	E	P	E	S	T	T
T	C	B	B	C	B	U	U	N	T	E	J	P	L	T	M	H	A	I	V
R	V	D	C	B	B	O	F	R	R	F	O	G	J	V	I	G	M	I	R
E	R	X	I	M	I	T	R	E	O	O	T	O	S	K	O	U	O	P	W
B	R	C	M	K	C	B	V	N	B	O	W	R	C	X	V	H	H	R	Y
O	H	S	T	M	R	A	E	F	E	Y	J	L	D	Z	H	A	T	B	C
R	W	O	S	C	N	R	A	I	R	E	X	N	A	I	L	R	M	X	J
L	J	M	B	S	W	T	E	X	T	M	L	D	X	N	K	E	A	F	U
L	P	C	Q	Y	O	I	L	F	S	E	R	H	Z	Q	D	V	I	R	O
N	E	O	D	R	A	P	D	L	A	N	O	R	T	C	T	S	L	D	G
H	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	A	N	L	L	R	V
O	O	G	J	D	A	F	Y	D	D	O	R	W	I	G	K	P	I	W	P
J	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X	E	U	W	G	H

Yn y chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG O BOBL A OEDD YN FLAENLLAW YN YR ARDAL YN Y GORFFENNOL. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn CHWEFOR 27. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Mae'r chwilair y mis yma yn ymwneud â phobl a oedd yn flaenllaw gyda chymuned Bethesda mewn un ffordd neu'i gilydd yn y gorffennol, boed yn berchenogion busnes, crefydd, cyngor neu addysg. Derbyniais ddau ateb yn hwyr y mis diwethaf, (chwilair Rhagfyr). Roedd un yn fai ar y post, ond roedd y

llall, dwi'n meddwl, oherwydd dathlu gormod wrth groesawu'r Flwyddyn Newydd ac wedi colli cownt o'r dyddiad. Ond roedd eich atebion yn gywir er hynny.

Dyma atebion Ionawr: A. G. Lloriau, Ann Jeanette, Caffi Seren, Crochendy Bethesda, Cwrw Ogwen, Dŵr y Mynydd, Gwasg Ffranc, Mabinogion, Pant yr Ardd Tregarth, Siop Pentref Rachub, Tafarn y Tarw, Tryfan Agri. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Half Way, Bangor; Mair Jones, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Marilyn Jones, Glanffrydilas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Margaret Williams, Rhos y Coed; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Doris Shaw, Bangor; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog.

Enillydd Ionawr oedd: Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen,
Rhiwlas ☎ 01248 355336

O gofnodion Cyngor Cymuned

Llanddeiniolen - Mae dŵr yn dal i redeg lawr yr allt heibio Ysgoldy. Cysylltu eto. Mae dail heb eu clirio ar balmentydd sydd yn beryg gan eu bod yn llithrig. *Llwybr 69 Cefn Braich Rhiwlas* - Mae preswylwyr ardal Rhiwlas yn ddiolchgar iawn bod y ffos wedi ei hagor ar y llwybr yma ac nid oes dŵr yn gorlifo ar y llwybr mwyach.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Elwyn a Margaret Jones, Fferm Tan y Weirglodd. Bu farw Maldwyn Hughes, cefnder Elwyn yn sydyn iawn yn 62 oed. Roedd wedi'i eni a'i fagu yn Llanddeiniolen a bu'r angladd yn Eglwys Sant Deiniol.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Glyn Jones, Bro Rhiwen. Bu farw Bronwen Davies, gwraig ei gefnder, Alan. Bu'r teulu yn byw am flynyddoedd ym Mynydd Llandygái ond wedi symud ychydig flynyddoedd yn ôl i Borthaethwy. Cofion atoch Alan.

Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Heledd, Bryn Seiriol, a Chris ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Un o'r Wyddgrug yw Chris a chyfarfu'r ddau yn y Brifysgol ym Mangor. Yn ogystal y mae Heledd wedi gorffen ei hyfforddiant a'r arholiadau ac yn awr yn aelod o Heddlu Gogledd Cymru. Pob hwyl i ti Heledd yn dy swydd newydd.

Merched y Wawr, Cyfarfod Mis Ionawr

Cawsom ein cyfarfod yn y pnawn gan mai brethyn cartref sydd gennym ym Mis Ionawr ers sawl blwyddyn yn ddiweddar

a daeth nifer ynghyd. Cawsom gwis lluniau diddorol unwaith eto gan Nia a chan fod Radio Cymru wedi dathlu'r deugain y llynedd roedd rhaid i ni enwi tua ugain o'r rhai a fu'n darlledu dros y cyfnod yma. Roedd yr ail daflen a gawsom yn ymwneud â'r hysbysebion yn Llais Ogwen a rhywbeth ar goll ymhob un ohonynt - ddim yn hawdd bob amser gan fod yn rhaid bod yn hollol gywir. Hefyd cawsom farddoniaeth, rhigymau, dywediadau am dywydd a digwyddiadau ym Mis Ionawr gan Iona.

Gwen oedd yn gyfrifol am y baned a bu Helen yn cyfrannu hefyd. Dilys a Gwenno a enillodd y raffl.

Croesawu

Ein dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Parch Martin Riley, Hafod Lon, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Y mae ef a'i briod wedi symud i'r pentref o Gorris a gobeithio eich bod yn setlo yn eich cartref newydd. Y mae eu mab, Peter a'r teulu eisoes yn byw ym Mro Rhiwen a dwi'n siŵr bod yr wyrion wrth eu bodd yn cael nain a thaid yn byw mor agos atynt nawr.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod 10 Ionawr: Yn y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn roeddem yn trefnu'r rhaglen am y tymor ac o hyn ymlaen fe fyddwn yn rhannu'r dyletswyddau a diolch i Ann am lywyddu am flynyddoedd. Ann a Dilys oedd yn gyfrifol am y baned a Jean ac Irene enillodd y raffl.

Cyfarfod 24 Ionawr: Cawsom gyfle i gymryd rhan mewn amrywiol gemau a chafwyd amser da. Diolch i Ann a Dilys am y lluniaeth a Gareth enillodd y raffl. Y mae'r cyfarfod nesaf ar 14 Chwefror pryd y byddwn yn cael te crempog.

Ymateb i'r cais am luniau ar gyfer yr arddangosfa

Cafwyd ymateb dda i'r cais am luniau, Cynrig a Cadi wedi eu plesio ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer yr arddangosfa ar 3 Mawrth. Anfonwyd lluniau o Gaerdydd a daeth dau draw o'r Wyddgrug. Cofiwch am y dyddiad a'r amser, 10yb tan 3yp a bydd paned ar gael.

Mynwent yr Eglwys

Derbyniais lythyr gan Ernest Land, o Ffordd Fodolydd, Y Felinheli. Hoffai ddangos ei werthfawrogiad i aelodau Eglwys Sant Cedol am glirio'r fynwent o ddraen a mieri er mwyn hwyluso pethau i'r rhai fydd angen mynd at gerrig beddi eu teulu. Mae am ddiolch hefyd i'r sawl a wnaeth y gwaith. Mae'r fynwent yn hynod o daclus ar y funud a'i chadw felly fydd y gamp. Wedi noson hynod o stormus a gwyntog yn ddiweddar fe syrthiodd coeden o fynwent yr Eglwys i'r fynwent gyfagos, ond yn ffodus iawn ni wnaethpwyd niwed i'r cerrig beddi. Diolch i Elwyn Jones, Clerc Cyngor Cymuned Pentir am drefnu i glirio'r difrod.

Ar y cyfryngau

Bu Owain Arthur, Caeau Gleision gynt, yn westai ar "Heno" yn ddiweddar a soniodd ei fod unwaith eto ar y rhaglen

"Casualty", a hefyd mae'n ymddangos yn y rhaglen "Hard Sun" sydd hefyd yn cael ei darlledu ar nos Sadwrn.

Pleser hefyd oedd clywed Manon Steffan Ross yn sgwrsio ar Beti a'i Phobl, mae wedi ymgartrefu bellach yn Nhowyn, ardal enedigol ei mam, ond yn ymweld â Rhiwlas yn aml. Soniodd fel roedd hi a'i ffrindiau yn chwarae yn Camp ac yn Graig, mannau poblogaidd i chwarae rhai blynyddoedd yn ôl. Mae'n ddramodydd, yn nofelydd llyfrau plant ac oedolion a bu canmol mawr ar y ddrama ddiweddaraf, "Mwgsi" gyda Chwmni'r Frân Wen, ac efo'r Cwmni yma y dechreuodd weithio wedi gadael ysgol ar ôl Lefel A. Roedd yn bleser gwrandao arnat Manon.

Arddangosfa Ffotograffau o Hanes Rhiwlas/Pentir/Carfan

Diolch i bawb ddaeth a'u ffotograffau i gael eu sganio yn y Neuadd ddydd Sadwrn 20 Ionawr.

Cafwyd diwrnod prysur, yn llawn bwrlwm. Braf oedd croesawu cyfeillion o bell ac agos, gyda rhai wedi dod bob cam o'r Wyddgrug.

Cofiwch y bydd yr arddangosfa i'w gweld Ddydd Sadwrn, 3 Mawrth, rhwng 10yb a 3yh. Bydd cyfle am baned a sgwrs. Ni fydd tâl mynediad, ond gellir cyflwyno rhodd er budd y Neuadd.



Rhai o'r trigolion yn mwynhau'r arddangosfa o hen ffotograffau

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Côr y Penrhyn

Wedi tymor o brysurddeb eithriadol mae'r côr wedi ail afael yn yr ymarferion gan wybod bod blwyddyn newydd o weithgareddau diddorol a gwahanol ar y gweill. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn a aeth heibio oedd y cyngerdd yng nghwmni Gwawr Edwards a Gwyn Owen yn Theatr Bryn Terfel pan gafwyd noson o gerddoriaeth safonol iawn gan ddau artist medrus a phrofiadol. Mae Gwawr Edwards, wrth gwrs, yn gyfarwydd i gynulleidfaoedd hyd a lled Ewrop ac America tra bod Gwyn, un o'n 'hogia ni' o Dregarth yn brysur yn chwarae'r trwmpeid mewn sawl cerddorfa a band ar lwyfannau Ynysoedd Prydain. Byddwn yn sicr o'i weld yn perfformio gyda'r côr eto cyn hir. Cyflwynwyd tusw o flodau i Gwawr a'i chyfeilyddes a hefyd i Frances Davies, cyfeilyddes y côr. Derbyniodd Owain Arwel, ein harweinydd, a Gwyn Owen, y trwmpeidwr gwadd, botel o gin newydd sbon wedi ei ddistyllu yn Abergwyngregyn. Clywsom fod y ddau wedi cael Nadolig llawen iawn!!



Gwyn Owen ac Owain Arwel gyda'u rhoddion o Ddistyllfa Abergwyngregyn. Diolch i'r ddistyllfa am gefnogi'r cyngerdd.

Henlllys

Fel y gŵyr holl gefnogwyr a charedigion y côr, yn ogystal â darllenwyr y golofn hon, mae Henlllys ar gyrion Biwmares ym Môn, yn un o'r lleoedd rheolaidd hynny sy'n gyrchfan arbennig i gorau meibion. Ynghanol mis Ionawr cynhaliodd y côr cyngerdd cyntaf y flwyddyn i neuadd lawn

yn yr hen blasty. Mae'r bobl sy'n dod i aros yn Henlllys a'i fythynnod yn mwynhau gwranddo ar gorau meibion ond gyda Chôr y Penrhyn, y farn gyffredinol yw mai hwn yw'r unig gôr lle bydd cystadleuaeth am docynnau ac mae'r rheiny yn £10 yr un. Siaradodd Dafydd Jones Morris, Cadeirydd y côr, gyda Mr Robert Holmes a'i wraig Margaret o Altrincham yn Swydd Caer a ddywedodd, "Rydian ni wedi bod ym mhob cyngerdd lle mae Côr y Penrhyn yn canu yn Henlllys," gan ychwanegu, "does dim dwywaith amdani - dyma'r côr sy'n rhoi'r mwyaf o wefr i ni. Er ein bod wedi prynu CD y côr o'r blaen rydan ni am brynu un arall heno i'w hanfon i chwaer Margaret yn Awstralia, gan bod gan y teulu gysylltiadau Cymreig."

Yn y cyngerdd cafwyd unawdau gan Ray Roberts, Tenor, John Outram, Bariton a Caleb Rhys, is-arweinydd Côr y Penrhyn. Derbyniodd perfformiad y côr gymeradwyaeth fyddarol gyda'r gynulleidfa ar ei thraed ar ddiwedd y perfformiad.

Rygi Rhyngwladol

Wrth i Lais Ogwan baratoi i fynd i'r wasg yn nechrau mis Chwefror bu'r côr yn cymryd rhan yn seremoni agoriadol gêm rygbi gyntaf tymor y chwe gwlad. Derbyniwyd gwahoddiad i fod yn un o'r corau oedd yn diddanu'r dorf ar faes Stadiwm y Principality ac aethom yno i groesawu chwaraewyr a chefnogwyr yr Alban ac i geisio tanio ysbryd o falchder yn ein gwlad ein hunain wrth godi canu a hwyl ymhlith y dorf. Canodd y corau unedig o dan faton Dr Haydn James, brodor o Nantylffyllon a gŵr a fu'n arweinydd Côr Meibion Cymry Llundain am 30 mlynedd. Bu hefyd yn arwain y Mil o Leisiau yn Neuadd Albert am flynyddoedd. Mae'r Dr James bellach wedi ymddeol ac yn byw yn Surrey ond mae'n dal i arwain y corau ar y maes cenedlaethol yng Nghaerdydd bob blwyddyn. Mae'n bleser cael dweud bod Dr James yn cyfri Côr Meibion y Penrhyn ymhlith y gorau o'r cantorion sydd wedi bod o dan ei arweiniad, nid yn unig o ran dysgu eu gwaith ond hefyd o ran disgyblaeth leisiol. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gwrdd ag aelodau'r côr am y trydydd tro. Mae derbyn canmoliaeth gan gerddor mor amlwg yn gredyd i'r côr ac i Owain Arwel, Caleb Rhys a Fran Davies am y gwaith mawr a wnânt yn paratoi'r côr ac i ennyn hyder yn y bechgyn.

Braint

Ychydig cyn gadael am Gaerdydd daeth y newyddion fod Haydn James wedi gofyn i Gôr y Penrhyn ganu i'r ddau dîm fel roedden nhw'n cyrraedd y gwagle o dan y stadiwm. Dim ond rhai corau dethol sy'n cael y fraint honno ac roedd aelodau'r côr yn benderfynol o ddangos eu bod yn llawn haeddu'r anrhydedd drwy roi perfformiad i godi'r to!



Dr Haydn James yn arwain yn Neuadd Albert, Llundain.

Norwy

Mae posibilrwydd cryf y bydd y côr yn ymweld â Norwy ym Mis Mehefin. Dyma ddangos bod apêl y côr yn lledaenu ac fe geir mwy o wybodaeth am y paratodau i fynd yno yn y rhifynnau nesaf.

Copa
Chwarae a Throchwr

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

CHRIS GRIFFITHS

**Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu**



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Nyth Y Gân

Cân yn Ionawr

Mor lân yw'r gân o'i geni, a fwrwyd

Yn fore o'r llwyni,
A'r awel drodd at rewi
Yn yr hwyr. Ionawr yw hi.

Chwarae 'Indiaid Cochion'

Bu brigau'r llwyni'n siglo
Dan bwysau'r ffrwythau iach
Ac aros yno'n eiddgar
Bu criw o hen blant bach.

Gwybodaeth gan eu teidiau
Drysorai'r bechgyn hyn
O sut i wneuthur bwa
Gan dorri'r sythaf ffyn.

Trwy fod yn greadigol,
Eu harfau newydd sbon
A brofodd yn unigryw
A'u gwneud i gyd yn llon.

Cyn hir bu'r mwyr duon
Yn llawn o felys sudd
Yn gorwedd ar yr wyneb
Neu dan y tyfiant cudd.

Fe wyddai y criw ifanc
Yn awr y byddai'r rhain
Yn barod yno i'w casglu
O fannau llawn o ddrain.

O rwbio'r sudd ar wyneb
Pob plentyn yn ei dro
Fe ddaeth rhyw Indiaid Cochion
I blith trigolion bro!

Dychymyg oedd bryd hynny
Yn ddefnydd gan y plant,
A rhedai hwnnw'n gyflym
Mor rhwydd â llif y nant.

Am ddyddiau y bu ymladd
Â bwa saeth a ffyn
Ond chafodd neb ei frifo
Gan 'run o'r arfau hyn.

Ar dafod y mae'r straeon,
Yn brofiad gan bob un,
A braf eu gwerthfawrogi
Wrth inni fynd yn hŷn.

Carchariad

Mor isel fu'r tawelu yn y gell
Pan gadd ei ddedfrydu;
Lle mor bell, am hir y bu
Yn dal heb weld ei deulu.

Bedd y Bardd

Gorwedd gŵr oedd â geiriau yn llifo
I'w llefydd fel ffrydiau,
A'i hynod wych syniadau
Yn eu pryd i gyd yn gwau.

Dafydd Morris

Marchnad Ogwen

Croeso cynnes iawn i ddwy stondin newydd!

Bwydydd fe gan sydd gan Angharad de Bruin - merch o Fethesda wrth gwrs. Ar hyn o bryd, dechrau datblygu'r busnes mae Angharad ac wrthi'n creu rysetiau. Mae pate fe gan yn barod ar werth a llawer mwy i ddod dros y misoedd nesaf. Mae cyfle i chwi flasau'r cynnyrch ar y Stondin. Pob dymuniad da gyda'r fenter Angharad.

Stondin gwerthu siocled yw'r Stondin newydd arall. Croeso cynnes i Ron Mills a 'Cocoaroma' Mae Ron yn defnyddio siocled o safon uchel ac yn gwerthu

pecynnau o siocled gyda gwahanol flasau yn ogystal â siocled du a siocled llefrith. Maen nhw yn hyfryd ... blas mwy!

Gan fod Marchnad Mawrth ar y 10fed o'r mis a Sul y Fam ar yr 11eg, bydd cyfle i chwi weld nwyddau a bwydydd addas fydd ar werth erbyn y diwrnod pwysig yma. Does dim angen i chwi symud o Fethesda - bob dim ar gael ym Marchnad Ogwen!

Eglwys Glanogwen sydd yn cynnal y Stondin Elusen ym Marchnad mis Mawrth. Gan fod y Stondin yma mor boblogaidd, dim ond mis Mai sydd ar gael am weddill 2018 i'r Stondin yma erbyn hyn.

Croeso cynnes i Farchnad Mawrth sydd ar y 10fed - o 9.30 tan 1 o'r

gloch. Mae gwybodaeth lawn ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar ein tudalen facebook.

Cardiau Maes Melyn yw'r stondin sydd yn cael sylw'r mis yma. Mae cardiau Cymraeg at bob achlysur ar werth gyda chyfraniad yn mynd at rai elusennau lleol megis Cyfeillion Ysbyty Gwynedd a'r gangen leol o'r NSPCC. Mae gweddill yr elw'n mynd at Uned Ymchwil Cancr sydd ar Ffordd Deiniol ym Mangor (adeilad mawr concrid fwy neu lai dros y ffordd i Asda). Jan Jones sydd yn gyfrifol am y cardiau ac yn cael pleser mawr (ar ôl ymddeol) yn potsian yn y llofft gefn yn creu! Diolch yn fawr i gwsmeriaid ffyddlon Cardiau Maes Melyn.

Ysgol Rhiwlas

Gymnasteg

Bu mis Ionawr yn fis llwyddiannus, yn enwedig o ran chwaraeon. Profodd Cynan Jones lwyddiant yng nghystadlaethau gymnasteg 'inclusive' ym Mangor, a chafodd Iori Price lwyddiant ym Mhencampwriaeth gymnasteg Gogledd Cymru. O ganlyniad enillodd wobwr y gymnast gwrywaidd gorau yng Ngogledd Cymru mewn seremoni wobrwyo yn Venue Cymru.

Traws Gwlad

Cafodd Oliver Warland lwyddiant mewn ras trawsgwlad.

Ymweliad PC

Cafwyd ymweliad diddorol gan PC Becca Davies i siarad gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 am ddiogelwch yn y gymuned.

Garddwyr o fri

Er y tywydd gwael mae gwaith yn parhau yn y 'polytunnel' a'r ardd. Cawsom letys ffres ac mae'r moron a'r nionod yn dod ymlaen yn dda! Bu Anna Williams o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt a Pharc Cenedlaethol Eryri yn cydweithio â'r disgyblion ar blannu gwrych er mwyn denu bywyd gwylt. Aeth Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad â gerddi botaneg Treborth fel rhan o gynllun 'Bywyd Gwylt o

fewn y pedwar tymor' gan 'Elfennau Gwylt'. Bydd ymweliad eto yn y Gwanwyn a'r Haf er mwyn cymharu'r canlyniadau a gweld sut mae'r amgylchedd wedi newid yn ystod y tymhorau.

Ynysoedd Marshall

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn dysgu am hanes a bywyd trigolion Ynysoedd Marshall ac yn ei gymharu â'u bywyd hwy yng Nghymru. O ganlyniad daeth Dr Alex Plows i drafod y prosiect y mae'n rhan ohono. Bydd gwaith y disgyblion yn cael ei rannu â gwaith disgyblion mewn ysgol yn Ynysoedd Marshall. Mae hefyd gynlluniau i gysylltu trwy gyswllt y we. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at y cynllun cyffrous hwn.

Rygi

Mae'r plant yn gwylio cystadleuaeth y chwe gwlad yn eiddgar ac yn arbennig o falch o lwyddiant 'ffrind' i'r ysgol - Josh Navidi. Mae Josh yn gefnder i Mrs Llinos Goosey sydd yn athrawes yn yr ysgol!

Diolch

Hoffem ddiolch i Coop Llanrug am roi hamper fwyd i ni ei 'rafflo' - nid yw'r tocynnau i gyd wedi eu dychwelyd ar hyn o bryd felly nid ydym yn sicr o'r cyfanswm a godwyd.

Bingo

Cynhelir bingo Pasg yn yr ysgol ar y 22ain o Fawrth er mwyn codi arian i'r ysgol.

Caerhun a Glasinfryn

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Gwyneth Jones, Y Bwthyn, Waen Wen, sydd wedi bod am lawdriniaeth yn ysbyty Walton, Lerpwl. Braf yw gweld Gwyneth o gwmpas unwaith eto.

Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da a phen-blwydd hapus i Mrs Muriel Pritchard, Tegfan, Waen Wen, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 99 oed ar 22 Ionawr. Braf yw gweld Mrs Pritchard yn byw yn ei chartref ei hun ac yn mwynhau gwrando ar y radio a llyfrau llafar, ac wrth gwrs wrth ei bodd cael ffrindiau i alw draw am sgwrs!

Y Cylch

Cawsom gyfarfod o'r cylch pnawn Mawrth 9 Ionawr yn y Storiol. 'Roedd Mair wedi trefnu i ni gael ein tywys o gwmpas yr oriel yng nghwmni difyr Shirley Owen a oedd yn hynod o wybodus a chlên.

Buom yn crwydro o un stafell i'r llall gan fwynhau gweld yr "hen bethau", oedd yn dod ag atgofion plentynod i lawer ohonom wrth gofio tŷ Nain a ballu!

I ddiweddu'r pnawn, cawsom banad a chacen ac amser i drafod a rhoi'r byd yn ei le!

Croeso i chi ymuno â ni mis nesa 7 Chwefror yn y ganolfan yng Nglasinfryn am 2 o'r gloch. Byddwn wrth ein bodd cael cwmpeini newydd.

Cyfarfod Cyhoeddus i drafod pryderon goryrru Glasinfryn

Daeth nifer fawr ynghyd i gyfarfod cyhoeddus i drafod problemau traffig ym mhentref Glasinfryn, ger Bangor yn ddiweddar. Cafodd y trigolion lleol y cyfle i leisio pryder am gerbydau sy'n goryrru

drwy'r pentref gan beryglu diogelwch cerddwyr, yn arbennig, wrth iddynt symud o un rhan o'r pentref i'r llall. Roedd llawer ohonynt hefyd yn poeni bod cerbydau mawr, fel lorïau, yn cael eu harwain drwy'r pentref gan achosi tagfeydd a difrod ambell dro, oherwydd nad yw'r ffordd yn addas ar gyfer cerbydau o'r fath.

Yn ôl y Cynghorydd Menna Baines, Pentir, sy'n cynrychioli'r trigolion a fynychodd y cyfarfod o ardal Glasinfryn, Waen Wen a Chae-rhun ar Gyngor Gwynedd: "Mi gafwyd trafodaeth frwd am ddiogelwch cerddwyr yn y pentref, oherwydd bod y ffordd mor gul ac nad oes pafn i gerdded arno. Mae'r sefyllfa i'w gweld yn waeth yn ystod y bore a'r prynhawn yn ystod dyddiau'r wythnos, gan fod y ffyrdd yn brysurach yr adegau hynny o'r dydd wrth i bobl fynd â'u plant yn ôl a blaen i'r ysgol neu deithio'n ôl a blaen i'r gwaith. Diogelwch ein trigolion sydd bwysicaf, felly mae'n beth da ein bod wedi gallu codi'r materion yma efo'r awdurdodau priodol."

Poen meddwl arall y trigolion yw'r cerbydau mawr sydd, mae'n ymddangos, yn cael eu harwain drwy'r ardal gan declynnau *sat nav*. Clywyd am lorïau yn mynd yn sownd mewn sawl lle yn yr ardal gan greu tagfa, rhai yn difrodi'r hen bont garreg sydd yng Nglasinfryn, ac ar un achlysur, lori yn tynnu ceblau i lawr yng nghanol y pentref.

Cafwyd mewnbwn yn ystod y cyfarfod gan Reolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd Cyngor Gwynedd, yr arweinydd cabinet, y Cynghorydd Dafydd Meurig a chynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru, y Rhingyll Kevin Bratherton sy'n gweithio ym Mangor.

Codwyd y ffaith fod gyrwyr hwyr y nos yn broblem achlysurol hefyd, gyda phobl ifanc, gan amlaf, yn rasio eu ceir drwy'r pentref.

Cadarnhaodd Rheolwr Uned Traffig y Cyngor y byddai cyfarpar casglu data traffig yn cael ei osod yn y pentref, am gyfnod o 7 diwrnod, fel cam cyntaf. Os yw'r data

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

yn dangos tystiolaeth o oryrru, yna gellir ystyried gweithredu i leddfu'r broblem.

Trafodwyd mesurau fel twmpathau diogelwch, '*rumble strips*', gosod cyfyngiad cyflymder 20 milltir yr awr yng Nglasinfryn yn lle'r 30mya presennol, ynghyd â'r posibilrwydd o symud yr arwydd 30mya sydd ar ochr Felin Hen i Lasinfryn, fel ei fod yn agosach at y pentref.

Roedd yr Heddlu hefyd yn awyddus i glywed gan y cyhoedd am unrhyw yrru gwrthgymdeithasol a goryrru yn y pentref. Anogwyd y trigolion i adrodd am ymddygiad o'r fath gan fod angen tystiolaeth ar yr heddlu i weithredu.



Rhai o'r trigolion lleol a fynychodd gyfarfod a drefnwyd gan gynrychiolwyr Plaid Cymru i drafod problemau traffig ym mhentref Glasinfryn



Diolchodd y Cynghorydd dros Bentir, Menna Baines (chwith blaen) ac AC Arfon, Sian Gwenllian (2il dde) i'r trigolion lleol am rannu eu barn am broblemau traffig Glasinfryn

JOHN ROBERTS**Paentiwr****Papurwr****Teilsrwr****Symudol: 07747 628650****Ffôn: 01248 600995****SIOP
OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T
a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs,
Golwg, Llyfrau, Llundia a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl
anghenion siopa! Galwch draw neu
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i
Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485**L. Sturrs
a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953**lsturrs@googlemail.com****Oriel Cwm**

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882**RICHARD S. HUMPHREYS**

Project ymchwil i archwilio effeithiau ystadau ar gymunedau Dyffryn Ogwen

Mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru
ym Mhrifysgol Bangor wedi derbyn
grant o £10,000 gan Gronfa Treftadaeth
y Loteri i weithio gyda chymunedau yn
Nyffryn Ogwen yng Ngwynedd i edrych
ar fywydau a phrofiadau'r cenedlaethau
hynny o bobl a fu'n byw a gweithio ar
ystâd y Penrhyn yn ystod y bedwaredd
ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.

Am ganrifoedd bu ystâd y Penrhyn yn
rym hynod nerthol ym mywyd gogledd-
orllewin Cymru. Roedd yn berchen ar
diroedd eang a'i dylanwad yn treiddio
i bob agwedd ar gymdeithas, megis
diwydiant, gwleidyddiaeth, diwylliant
a chrefydd, pensaernïaeth, ffermio a
rheoli tir. Mae rhannau pwysig o'r stori
gymhleth hon, a oedd yn gynhennus iawn
ar brydiau, wedi eu diogelu a'u dehongli
mewn safleoedd treftadaeth o bwys, yn
cynnwys Castell Penrhyn a'r Amgueddfa
Lechi Genedlaethol. Fodd bynnag, ni
roddwyd fawr o sylw hyd yma i fywydau a
phrofiadau'r miloedd o bobl hynny a fu'n
byw ar yr ystâd fel tenantiaid ac a oedd
yn gweithio ar ffermydd yr ystâd, neu a
gyflogid fel coedwigwyr, ciperiaid neu fel
gweision a morwynion yn y Castell. Nod
y project yw unioni'r diffyg hwn drwy
atgofion a memorabilia pobl sy'n byw yn
yr ardal, a thrwy ymchwilio i gofnodion
hanesyddol a gedwir yn Archifau Prifysgol
Bangor ac Archifdy Caernarfon.

Cynhelir y project treftadaeth tri mis
rhwyng Ionawr a Mawrth 2018 a bydd yn
cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau a
gweithgareddau mewn gwahanol fannau
ar draws y rhanbarth i gasglu a rhannu
gwybodaeth. Anogir aelodau'r cyhoedd
sydd eisiau rhannu eu gwybodaeth neu
gymryd rhan yn yr ymchwil i ddod i un
o'r digwyddiadau hyn i rannu atgofion
a memorabilia. Bydd y project hefyd yn
cynnwys teithiau treftadaeth, gweithdai
archif, sesiynau hyfforddi a rhoi sylw
arbennig i ymchwil.

Erbyn diwedd y project, mae'r tîm yn
gobeithio y bydd wedi casglu gwybodaeth
a fydd o help i ateb rhai o'r cwestiynau a
ganlyn: Sut y gwnaeth blaenoriaethau a
gweithredoedd tîrfeddianwyr effeithio ar
gymunedau ar draws Dyffryn Ogwen? Sut
berthynas oedd yna rhwng landlordiaid a
thenantiaid? Sut brofiad oedd gweithio fel

gwas neu forwyn yng Nghastell Penrhyn?
Sut y dylanwadodd ystadau ar arddull
pensaernïaeth leol? Beth oedd effeithiau
dirywiad a gwerthu'r ystadau yn yr
ugeinfed ganrif ar y gymuned? Cyflwynir
y darganfyddiadau hyn drwy arddangosfa
deithiol ac ar-lein drwy wefan y project.

Meddai Dr Shaun Evans, Cyfarwyddwr
Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, wrth
ymateb i'r newydd am dderbyn y grant:

'Dwi'n hynod falch ein bod wedi llwyddo
i gael cyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri
ar gyfer y project cyffrous yma a fydd yn
galluogi'r brifysgol i gydweithio'n agos â
grwpiau cymunedol a sefydliadau treftadaeth
ar draws y rhanbarth er mwyn ehangu ein
dealltwriaeth o agweddau ar hanes Cymru
sydd wedi cael eu hesgeuluso hyd yma.
Hoffwn annog unrhyw un sydd â chysylltiad
hanesyddol â'r rhanbarth i gymryd rhan yn y
project drwy rannu eu hatgofion, tyrchu am
hen luniau teuluol, ymuno â'r tîm ymchwil
neu ddod i'r digwyddiadau. Llauer o ddiolch
i chwaraewyr y Loteri Cenedlaethol am eu
cefnogaeth.'

Dyma'r dyddiadau pwysig i'w nodi:

Dydd Sul 25 Chwefror 12-4pm

Diwrnod hanes lleol,
Hendre Hall, Talybont

Dydd Iau 8 Mawrth 10am-1pm

Taith dreftadaeth gydag arweinydd
Moel Faban, Bethesda

Dydd Iau, 15 Mawrth 11am-3pm

Taith Castell Penrhyn a Phentref
Llandygái
Castell Penrhyn, Llandygái

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

**Nos Fercher,
Chwefror 28**

am 7 o'r gloch yn
Festri Capel Carmel.

**Y Prifardd Ieuan Wyn
'O Ben Lôn Bronnydd'**

CROESO CYNNES!

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Bedydd

Bnawn dydd Sul, Ionawr
28ain yng Nghapel Carmel,
bedyddiwyd Michalina (7 mis
oed) sy'n ferch i Dion Williams
a'i gyfar, Agnieszka, sydd wedi
ymgartrefu yn 22 Lôn Groes.
Daeth y teulu o Wlad Pwyl i'r
achlysur. Magwyd Dion ym
Maes Bleddyn.

Y stryd

Y mae'r cynghorydd Godfrey
Northam wedi tynnu sylw
Cyngor Gwynedd eto at gyflwr
gwael y stryd fawr rhwng Capel
Carmel a'r sgwâr, am fod dynes
wedi syrthio yno, a chlwb
yr henoed yn cyfarfod yn yr
ysgody.

Ysbwriel ac ailgylchu

Yn aml bydd mân ysbwriel ar
hyd rhai o'r strydoedd wedi
i'r Cyngor gasglu'r blychau
ailgylchu. Felly hoffem atgoffa'r
trigolion bod modd cael
caeadau, blychau, biniau a
throliau newydd (neu rwydi i'w
rhoi dros y blychau) trwy ffonio
01766 771000.

Te bach

Cynhelir Te bach yn ysgody
Capel Carmel am 2.30 tan
3.30y.p ar Ddydd Llun, Chwefror
y 26ain. Mynediad £2. Croeso i
bawb.

Diolch

Hoffai Anna Tugwell ddiolch yn
fawr iawn am y rhoddion caredig
iddi ar achlysur ei phen-blwydd
yn ddeunaw oed.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am
farwolaeth Geraint Jones
(Ffordd Tanybwllch a'r Hen
Dderwen Frenhinol/Royal Oak).
Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn yn dyner iawn
â theulu Marion Hughes, 3 Yr
Ynys, Rachub, a fu farw'n dawel
yn Ysbyty Gwynedd ddiwedd
Ionawr. Chwaer gariadus
Gwenfron, modryb annwyl
Samantha, Mathew, Verity,

Sadie ac Andrew. Cynhaliwyd
gwasanaeth yn Amlogsgfa
Bangor ar Chwefror 2il, gyda
chasgliad arbennig tuag at
Gymdeithas y Deillion Gogledd
Cymru ac ymchwil Ffibrosis.

Anfonwn ein cydymdeimlad
hefyd at deulu June Heather
Young, 14 Bron Bethel
Llanllechid, a fu farw'n
heddychlon wedi salwch hir.
Mam annwyl Arfon, Elen a Nia.
Nain gariadus i Lee, Tammy,
Melissa, Les, Nicole, Claire,
Liam, Cieran, Sian, Emily,
Darren, Dylan, Daniel ac Ashley.
Gwnaed casgliad arbennig tuag
at Ymchwil Cancr yn ystod y
gwasanaeth yn Eglwys Coetmor.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb
bnawn Mercher 17eg o Ionawr.
Croesawodd y Llywydd bawb
i'r cyfarfod a dymuno blwyddyn
newydd dda iddynt.

Llongyfarchwyd Arfona ar ei
phen-blwydd yn 90 oed ddiwedd
Rhagfyr, a hefyd Myfanwy ar ei
phen-blwydd ym mis Ionawr.
Cydymdeimlwyd â theulu
Geraint a fu farw. Roedd Geraint
yn frawd i fab yng nghyfraith
Rita.

Cafwyd pnawn difyr iawn gan
rai o'r aelodau yn dweud eu
straeon. Rhan fwyaf yn sôn am
yr hen amser. Cawsom hanes
Carnifal Pan Twr. Cawsom

hanes diddorol a doniol eu
bywyd. Roedd y Llywydd wedi
cyfansoddi barddoniaeth ar
hanes dechrau ei gwaith hanner
can mlynedd yn ôl yn ardal
Llanllechid.

Dymunwyd gwellhad buan i
rai o'r aelodau oedd ddim yn dda
efo'r annwyl.
Enillwyd y raffl gan Medi. Bydd y
cyfarfod nesaf ar Chwefror 14eg.

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Chwefror 18: Parchg Dylan Rhys
Parry (2.00y.p)
Chwefror 25: Gweinidog
Mawrth 4: Gwasanaeth Gwyl
Ddewi (10.30y.b)
Mawrth 4: Gweinidog (Cymun)
Mawrth 11: Parchg John Lewis
Jones.

Oedfaon am 5.00 oni nodir yn
wahanol. Croeso cynnes i bawb.
Ysgol Sul am 10.30 yb.

Clwb Dwylo Pysur, Nos Wener
am 6.30y.h.
Dydd Llun, 26 Chwefror:
Te Bach. 2.30 - 4.00.

Cydymdeimlo
Ddydd Llun, 22 Ionawr,
cynhaliwyd angladd y diwedd
Mr Geraint Jones, Ffordd
Tan y Bwlch dan arweiniad y
Gweinidog, y Parchedig D John
Pritchard. Cafwyd darlenniad
o'r Beibl a gair o deyrnged gan
y Parchedig Dafydd Coetmor
Williams, gyda Mrs Helen Wyn
Williams wrth yr organ. Rydym,
fel eglwys, yn cydymdeimlo â'i
briod Alison, ei blant Danielle
a Michael, ei wyrion Owen,

Hannah, Erin a Catrin, ei fam
Mrs Betty Jones a'i frodyr,
Gareth, David, Trevor ac Alwyn
â'u teuluoedd.

Bedydd

Ddydd Sul, 28 Ionawr, dan
arweiniad y gweinidog,
cynhaliwyd Oedfa Fedydd pryd
y bedyddiwyd Michalina, merch
Dion ac Agnieszka. Braf oedd
cael croesawu teulu o Wlad
Pwyl!

Cofion

Anfonwn ein cofion at yr aelodau
sy'n sâl gartref neu yn yr ysbyty,
yn eu plith Mrs Buddug Hughes,
Ffordd Carneddi, Mrs Phyllis
Evans, Plas Ogwen, a Mr a Mrs
Thomas Jones, Rhos y Coed.

Clwb Dwylo Pysur

Bu aelodau Clwb Dwylo Pysur
yn astudio Porticos Llechi
Dyffryn Ogwen sef gwaith Dr
John Llywelyn Williams ar
Hanes Dyffryn Ogwen. Maent
wedi gwneud lluniau o rai
ohonyn nhw gan ychwanegu
clawdd pileri, sydd hefyd yn
nodweddiadol o'r ardal. Mae'r
bobol ifanc ar hyn o bryd yn
paentio darluniau o flodau
gwylltion, patrymau o bob math,
gan gynnwys rhai celtaidd, ar
lechi.

Clwb Hanes Rachub

Tipyn o arbrawf oedd cynnwys
cyfarfod Mis Ionawr o'r Clwb
Hanes. Penderfynwyd gofyn
i rai o'r aelodau wneud rhestr
o'r bobl y maen nhw'n eu cofio
yn Rachub ers talwm, pwy
oedd yn byw ym mha dŷ a pha
stryd ac ati. Llwyddwyd i gael
noson ddigon difyr yn cofio am
ddigwyddiadau a chymeriadau
o wahanol gyfnodau. Rydym,
fel clwb, yn bwriadu casglu'r
cofnodion yma, gyda'r gobaith
o ategu mwy o hanesion
am wahanol strydoedd a
chymunedau o bryd i'w gilydd.
Diolch yn fawr i Fiona [Rhes
Gefn], Marian [Tandderwen],
Lynda [canol Caellwyngrydd],
Dilwyn ac Islwyn [Lôn Groes] a
Gwynfor [Llwyn Bleddyn] am eu
cyfraniadau.

Cofiwch am ein cyfarfod
nesaf, 28 Chwefror, 'O ben Lôn
Bronnydd' gan y Prifardd Ieuan
Wyn.



*Dyma lun o Hannah, Ffion, Martha, Owain ac Elen, a
fu'n llunio'r murlun.*

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Peiriant codi arian di-dâl

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Talybont

Neville Hughes,

14 Pant, Bethesda ☎ 600853

Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont

☎ 353500

Gradd

Llongyfarchiadau i Siôn Kendrick, 4
Lônddŵr, mab Mark a Bethan, ar ennill
gradd "MYA Meistr mewn Ymarfer
Addysgiadol".

Croeso i Dalybont

Croesawn Bill Murrell i rif 4 Dolhelyg.
Cofwn ef yn gweithio ym Mhwl Nofio
Bangor am flynyddoedd lawer. Gobeithio y
bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Pen-blwyddi Arbennig

Mae Elen Wyn, 36 Bro Emrys, newydd
ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Anfonwn
ein dymuniadau gorau iddi, yn enwedig ar
gyfer yr arholiadau pwysig fydd hi'n sefyll
yn yr Haf.

Mae Elen yn barod i gymryd rhan ym
mhob peth sy'n digwydd yn ei chapel, yn
yr ysgol a'r ardal, ac yn rhoi o'i gorau bob
amser. Pob bendith a llwyddiant iddi!

Mae Liam Casey, 20 Cae Gwigin, hefyd,
wedi cyrraedd ei ddeunaw oed. Gwelwn
Liam yn aml yn rhedeg, neu'n seiclo yn
y pentref. Mae ganddo wên bob amser, a
chyfarchiad siriol i bawb.

Rydym yn ffodus iawn, yn Nhalybont,
bod gennym bobl ifanc mor ddymunol a
chymwynasgar o'n cwmplas.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am adferiad iechyd
buan i daid Liam, sef Gary Casey, yn dilyn
ei driniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

Gwanwyn Glân Cymru 2018:

Rhwng 1af a'r 4ydd o Fawrth, bydd Trigolion
Talybont yn ymuno â'r ymgyrch casglu
sbwriel "Gwanwyn Glân Cymru" (The
Great British Spring Clean) dan nawdd
Cadwch Gymru'n Lân/Keep Britain Tidy.
Cadwch olwg am fanylion pellach ynglŷn
â'r trefniadau, neu ar hysbysfwrdd y pentref
neu ar gyfryngau cymdeithasol, megis
Facebook.

Newyddion o Eglwys St. Cross

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth
Hefina Chamberlain. Hoffem estyn ein

cydymdeimlad at y teulu a'i ffrindiau yn
Eglwys Llandegai.

Cofion

Gobeithio bod pawb yn gwella'n foddhaol
yn dilyn y fflw, a'r anwyd trwm.

Gweithgareddau yn yr Ysgoldy

Mae'r Boreau Coffi yn parhau bob mis, ar
y dydd Mawrth cyntaf yn y mis. Braf gweld
ffrindiau hen a newydd yn ymuno â ni ac yn
cymdeithasu - diolch am eich cefnogaeth.

Tua diwedd mis Chwefror, rydym yn
gobeithio cynnal noson Bingo. Nid yw'r
dyddiad wedi ei gadarnhau eto, felly
cadwch olwg ar hysbysfwrdd y pentref ac ar
gyfryngau cymdeithasol, megis Facebook,
am fanylion maes o law.

Ddydd Gwener 16eg o Fawrth am 7 o'r
gloch, mi fydd yna Noson Caws a Gwin.
Eto, manylion pellach maes o law. Rydym
yn ddiolchgar i Cora a Howard am drefnu'r
noson.

Capel Bethlehem

Oedfaon

Chwefror 18: Mr T. Alun Williams,
Caernarfon; Chwefror 25: Gweinidog;
Mawrth 4: Parchg Euros Wyn Jones,
Llangefni; Mawrth 11: Gweinidog; Mawrth
18: Parchg Cledwyn Williams, Bangor.
Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i
bawb.

Casglu Arian at Achos Da

Llongyfarchiadau i Chloe Smith, ac Eleri
Pritchard, y ddwy o Ddolhelyg, am fynd ati
i gasglu £305.00 tuag at Ward Alaw, Ysbyty
Gwynedd. Ond y cwestiwn ydyw sut ddaru
nhw lwyddo i godi'r fath arian mewn byr
amser? Raffi? Na! Noson Goffi? Na! Canu
Carolau? Na! Bingo? Na! Gofyn am Nawdd
oddi wrth deulu a ffrindiau? Ie!!! Ond nawdd
am wneud beth? Wel nawdd am wrthod
defnyddio technoleg am fis cyn y Nadolig.
Meddylwch am y ddwy, Chloe yn 11oed
ac Eleri yn 14 oed, - DIM TELEDU, DIM
CYFRIFIADUR, DIM FFÔN, DIM IPAD,
DIM RADIO - DIM TECHNOLEG O GWBL
AM FIS CYFAN!!! Mae'r genod, sydd yn
dod i'n helpu yn yr Ysgol Sul, yn haeddu
medal am lwyddo i wneud y ffasiwn beth yn
yr oes dechnolegol sydd ohoni. Da iawn wir
genod, ac rydan ni'n gwybod eich bod yn
ddiolchgar iawn i bawb am eich noddi.

Cofion

Dymuniadau gorau at bawb sydd wedi bod
yn sâl gartref neu mewn ysbyty. Gobeithio
eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan



Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Chwant a dyhead (4)
- 4 Croes i elw (5)
- 8 Y gair amdano ers ei fedyddio (3)
- 9 Beiddgar (7)
- 10 Gorweddffan ugain mil o saint (4,4)
- 11 Mae digonedd ar draethau 10 Ar Draws wedi storm (4)
- 12 Cywilyddus (11)
- 16 Craff a gwyliadwrs (4)
- 18 Straeon papur newydd (8)
- 20 HSBC neu TSB (7)
- 21 "--- Fach y Bwcs" (cofiant) (3)
- 22 Gwisgoedd (5)
- 23 Fel un sy'n cydymffurfio (4)

I LAWR


- 2 Mae'n fain, yr iaith yma (7)
- 3 Hoff anifail, yn ddof ac yn fwythlyd (5)
- 4 Er allan o diwn, canaf ym mysg y gynulleidfa grefyddol (7)
- 5 'Hangings' ar lafar (5)
- 6 Sydyn ac annisgwyl (7)
- 7 Côr pedwar llais yn cyfuno yn harmoni swynol (4)
- 13 Ychwanegiad (7)
- 14 "--- efo Deio i Dywyn" (cân werin) (3,4)
- 15 Cartrefi'r meirch (7)
- 17 Cwmni recordio Cymreig. Wnaiff o'ch dallu ? (4)
- 18 Dod yn gyntaf (5)
- 19 Lle i ddechrau cynilo os oes gennych chi sach (dihareb) (5)

ATEBION CROESAIR

IONAWR 2018

AR DRAWS 5 Ugain, 8 Ffa Ffrengig, 9 Cadach, 10 Wyres Fach/Wyres Iau, 11 Clymu, 14 Uthr, 16 Ffugenw, 17 Ich Dien, 18 Dol, 20 Ffigys, 24 Seibiant, 25 Adara, 26 Cernyweg, 27 Culni I LAWR 1 Offrwm, 2 Uffern, 3 Betsi, 4 Hiraeth, 6 Gwaelodi, 7 Isalmaen, 12 Curiadau, 13 Pelydryn, 14 Uwd, 15 Rîl, 19 Oferedd, 21 Eboni, 22 Camwy, 23 Ategu

Ateb 10 Ar Draws achosodd fymryn o gur pen. Roedd eich hanner wedi rhoi 'Wyres Fach' a'r hanner arall yn cynnig 'Wyres Iau'. Wedi pendroni ychydig, penderfynais yn fy haelioni arferol dderbyn y ddau ateb!



Mae'r canlynol i'w canmol am anfon atebion hollol gywir: Millie Jones, Llanllechid; Doris Shaw, Bangor; Dilys Wyn Griffith, Abergel; Iona Williams, Llanddulas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gareth William Jones, Bow Street; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Parry, Rhiwlas; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth

Ond yr un sy'n derbyn y clod a'r wobwr y mis yma yw John H. Evans, Cartref Henoed Plas Pengwaith, Maes Padarn, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd LL55 4TP. Llongyfarchiadau mawr i chi. Atebion erbyn 1af Mawrth, 2018 i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

I hysbysebu yn
Llais Ogwan, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Atebion erbyn 1af Mawrth, 2018 i 'Croesair Chwefror'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Myfyrwyr 2

Yn rhifyn d'wethaf *Llais Ogwan*, crybwyllais enw myfyriwr oedd yn gweithio ar y bysys efo fi – ac mae'n rhaid i mi ddweud mwy amdano fo na dim ond ei enwi'n unig.

Un o'm ffrindiau pennaf oedd – ac yn dal i fod felly – Vincent Roberts, Adwy'r Nant. Ar ôl gadael Ysgol Dyffryn Ogwen, galwyd Vince, fel cyfaill arall (Ffrancon Thomas o Rhes Jâms) i gyflawni dwy flynedd o wasanaeth milwrol gorfodol ond dychwelodd y ddau i ddilyn cwrs ymarfer dysgu yn y Coleg Normal ym Mangor. Buont eu dau'n gweithio ar y bysys yn ystod y gwyliau haf ond condyctyr ar fsys Crosville oedd Ffranc, a Vince a minnau at y Moduron Porffor. A dyna gyfnod hwyliog a difyr oedd hwnnw, yn llawn digwyddiadau a roes fod i lu o atgofion. Yr un sy'n sefyll yn glir yn fy nghof, ac un yr ydw i wedi'i adrodd lawer gwaith wrth gyfeillion ac eraill ydi hanes un dydd Sadwrn hollol gyffredin yn yr haf pan oedd Vince a minnau'n gweithio efo'n gilydd ar y dybl-dec rhwng Bethesda a Bangor.

Roeddem wedi clywed bod sioe neu syrcais ym Mangor y pnawn hwnnw ac roedd yn amlwg fod mwy nag arfer o bobl a phlant wedi dod ar y decar yn Adwy'r Nant. Ac felly hefyd gyferbyn â'r Gofgolofn, o flaen siop Jones Barbar ac wedyn wrth ymyl garej Purple Motors. Dylwn ddeud yn y fan hon fod dealltwriaeth rhwng condyctyr a gyrrwr – roedd canu'r gloch un waith yn arwydd i'r gyrrwr stopio, dwy gloch i ailgychwyn, ond pe bai'r condyctyr yn canu'r gloch deirgwaith roedd y gyrrwr yn gwybod bod y bws yn llawn ac na ddylai stopio i godi unrhyw un arall. Mae'n bwysig cofio mai 56 o seti oedd yn y decar a hawl i 8 sefyll yn y gwaelod ond neb i fynd y grisiau.

Y pnawn hwnnw, roedd pobl yn dal i ddod ar y bws yn Brynbella, Pont-y-Pandy (*Half-Way*), Llandygái, a hyd yn oed wrth geg y lôn at Maesgeirchen, Hiraef a Garth. Roeddwn wedi sylweddoli

bod llawer mwy nag arfer o bobl ar y bws pan gefais drafferth ofnadwy i fynd rownd tro Pont-y-Pandy gan mor eithriadol o drwm oedd y llyw – hynny yn y dyddiau pan nad oedd cymorth llywio (*power steering*) yn bod. Ond roedd pethau'n waeth fyth wrth geisio mynd rownd y gornel wrth y Swyddfa Bost ym Mangor – dim ond chael-a-chael wnes i, gyda'm holl egni a bôn braich go nerthol, i fynd rownd y tro a chyrraedd at y llecyn dadlwytho gyferbyn â chaffi'r Corner Buffet.

Dylifodd ugeiniau o bobl a phlant o gefn y decar, yn un sribed hir, ond doedd dim sôn am Vince yn eu plith – nes y daeth y fintai olaf i lawr grisiau'r decar a Vince yn olaf yn y rhes. Roedd yn chwys diferol a'i grys wedi newid ei liw gan y gwlybanaeth. Pan ofynnais iddo pam nad oeddwn wedi cael tair cloch i beidio â chodi neb, eglurodd na allai gyrraedd cloch. Pam? Roedd i fynd y grisiau ym mhen blaen y bws ac yn methu cyrraedd cloch gan gymaint o bobl oedd yn sefyll rhwng y seti fel na allai symud modfedd. Faint o bobl oedd ar y decar? Wedi iddo lenwi ei *waybill*, cyhoeddodd Vince y nifer anghredadwy – 105! Pe bai'r awdurdodau trafniadaeth wedi'n dal yn cario 105 o deithwyr ar ddybl-decar na ddylai gario mwy na 64, byddai'r ddau ohonom wedi bod mewn dŵr poeth iawn!

Er ein bod yn gallu adrodd y stori heddiw gydag ysgafnder a gwên, ni allwn beidio â chyfaddef ein bod yn ifanc, ffôl ac anghyfrifol ar y pryd ac yn amlwg heb sylweddoli ein bod yn peryglu bywydau cymaint o bobl.

Ond dyddiau da a difyr oedd y rheini ar y cyfan, yn llawn hwyl a thynnu coes diniwed, gydag ambell dro trwstan yn dal i godi gwên wrth i rai o'r hen griw hel atgofion.

Mae un aelod o weithlu'r Moduron Porffor nad ydw i eto wedi sôn amdano ond bydd yn rhaid i chi aros tan rifyn nesaf *Llais Ogwan* i gael ambell stori am gymeriad gwirioneddol ddiddorol!

I'w barhau

Cyhoeddi cyflwynwyr newydd Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.

Mae'r gyfres grefyddol **Dechrau Canu Dechrau Canu** wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno â'r rhaglen.

Yn eu plith mae cyflwynydd BBC News at Ten, Huw Edwards, a'r dyfarnwr rygbi Nigel Owens sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwrandao arni cyn camu ar y cae.

Y cyflwynydd Lisa Gwilym, yr actor a cherddor Ryland Teifi a'r cyflwynydd Nia Roberts, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.

Mae'r gyfres yn cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.

Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gyd-fynd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n dod o Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd.

Bydd sgysiaid gyda'r sylwebydd rygbi Alun Wyn Bevan ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan yn ogystal â chyfweliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwydd Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgysiaid difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y cyflwynwyr newydd ar y sgrin ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."



Y cyflwynwyr newydd

Ysgol Pen-y-bryn

Ymweliad Llanberis

Mynychodd blwyddyn 5 a 6 weithdy am Streic y Penrhyn yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Diddorol oedd cael clywed hanesion am effaith y streic ar y gymuned gan yr actores Leisa Mererid. Yn ogystal, cafodd y plant gyfle i weld arteffactau o'r cyfnod. Hoffem ddiolch i Elen (Swyddog Addysg yr Amgueddfa) am y croeso cynnau a gawsom eto eleni; edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r holl wybodaeth yn ein gwaith hanes y tymor hwn!

Diwrnod Ail Ryfel Byd

Ar ddydd Mercher, 31 Ionawr, cawsom ddiwrnod i gofio am yr Ail Ryfel Byd yn nosbarth

Carnedd. Bwm yn chwarae rôl fel faciws ifanc wedi symud o ddinas Lerpwl i gefn gwlad Cymru. Yna, roeddem yn chwarae gemau traddodiadol, ysgrifennu ar lechen a chreu posteri propaganda. Cawsom gyfle i flasau pwddin bara menynd a chael sesiwn holi gyda Mrs Roberts am hanes y rhyfel a'r effaith ar fywydau unigolion yn ystod cyfnod y rhyfel. Roedd pawb wedi mwynhau!

Pêl-droed yr Urdd

Da iawn pawb o dîm Ysgol Pen-y-bryn a aeth i gynrychioli'r ysgol yn Nhwrnamaint Pêl-droed yr Urdd i flynyddoedd 3 a 4 a gynhaliwyd yng Nghanolfan Brailsford, Bangor.



Y Tîm Pêl-droed

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ionawr, aeth dau aelod o'r gangen i gyfarfod o bwyllgor gwaith Plaid Lafur Arfon, i dderbyn adroddiadau gan y swyddogion ac i gytuno ar amserlen i ddewis ymgeisydd ar gyfer etholiad nesaf San Steffan am fod perygl y bydd etholiad cynnar.

Wedyn, cynhaliwyd cyfarfod deufisod y gangen (e.e. Ewrop yn gwahardd codi tâl am ddefnyddio cardiau arian, pob lle hyfforddiant meddygol Cymru'n cael ei lenwi a chyngor Gwynedd yn gosod lampiau stryd L.E.D. i arbed arian), gydag ail ran y cyfarfod yn trafod cynigion Cyngor Gwynedd ar gyfer clybiau'r ieuencid (e.e. Dyffryn Peris mewn perygl o gollu'r clwb ieuencid yn ogystal â'r llyfrgell a rhan helaeth o'r amserlen bysiau).

Yna, yng nghanol y mis, aeth llawer o aelodau i orsaf trenau Bangor, i dynnu sylw at y ffaith bod prisiau tocynnau wedi codi 32% ers i'r Toriaid ddod i rym yn

2010 (sy'n ddwywaith cymaint â'r codiadau mewn cyflogau) ac nad oes cynlluniau gan y Toriaid i drydaneiddio rheilffordd Gogledd Cymru, wrth iddynt dorri'r addewid i drydaneiddio'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe

Wedyn, aeth nifer o aelodau i gyfarfod o bob aelod yng Nghaernarfon - yn bennaf i wrando ar araith gan Mike Payne o Benarth a gofyn cwestiynau iddo. Efe ydy cadeirydd Plaid Lafur Cymru a hefyd y mae'n swyddog gwleidyddol yr undeb G.M.B. e.e. rhaid sylweddoli bod modd i rywun ymuno ag undeb fel unigolyn yn gyfrinachol os nad oes cangen yn y gweithle, er mwyn cael cymorth cyfreithiol gan yr undeb yn y dyfodol a buddiannau eraill.

Cynhelir bore coffi blyneddol y gangen yng Nghanolfan Gymdeithasol Cefnfaes, Bethesda ar 10 Mawrth a'r cyfarfod cangen nesaf am 7:30 y.h. ar y 14eg yn yr un lle.



Diwrnod Ail Ryfel Byd

Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Lleoliad: Cefnfaes, Bethesda
7.15pm - 9.30pm



RHAGLEN CHWFROR - MAI 2018

- Chwefror 7** Darlith gan Tom Dodd
"Ffotograffiaeth Tirlun"
- Chwefror 21** Darlith gan John Rowell "Genesis"
- Mawrth 7** Noson ar y cyd gyda Chlwb Camera Caernarfon
- Mawrth 21** Darlith gan Gareth Jenkins "Prosiectau Ffotograffig Personol"
- Ebrill 4** Cystadleuaeth - "Fy Nyffryn" efo Margaret Salisbury
- Ebrill 18** Darlith gan Andy Polokowski "Arddangosiaeth"
- Mai 2** C.C.B

Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau: www.dyffrynogwencamera.co.uk



Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cyngorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cyngorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cyngorydd.rheinaltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07769 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cyngorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

f @CyngorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen

gair neu ddau

John Pritchard

Taith go iawn

Nid wyf am eiliad yn disgwyl i chi gofio mai sôn am y bywyd Cristnogol fel taith a wnes i yn y golofn hon y mis diwethaf. Yn rhyfedd iawn, un daith arbennig a roes gychwyn i'r golofn y mis hwn hefyd. Taith ddiweddar i gyffiniau Wrecsam oedd honno, i le na fûm ynddo erioed o'r blaen

Mae rhywbeth yn dweud wrthyf fy mod wedi defnyddio'r darlun arbennig hwn mewn erthygl flaenorol. Mae fel petawn wedi bod ar hyd y lôn hon o'r blaen, ond mi fethais yn lân â dod o hyd i'r erthygl. Ond hyd yn oed pe byddwn wedi llunio erthygl debyg cyn hyn, fyddai dim ots gen i. Mewn gwirionedd, byddai hynny'n gweddu i'r dim i'r darlun sydd gen i. Oherwydd er na fûm erioed ar gyfyl y lle tan ddydd olaf Ionawr, roedd rhan olaf ddieithr y daith yn gwbl gyfarwydd erbyn i mi droi trwyn y car oddi ar y briffordd brysus. Roedd y tro oddi ar y cylchfan yn gyfarwydd; felly hefyd yr arwydd a nodai enw'r pentref. Roeddwn yn adnabod yr adeiladau i'r dde i mi yng nghanol y pentref, ac yn gwybod yn iawn fod rhaid troi i'r dde unwaith yr oeddwn wedi mynd heibio iddyn nhw. Gwyddwn y byddwn wedyn yn mynd heibio i'r byngalos o boptu'r lôn a throï i'r dde unwaith eto cyn cyrraedd pen y daith. Ond fûm i erioed ar gyfyl y lle cyn hynny.

Ac eto, roeddwn wedi gyrru ar hyd y ffordd y noson flaenorol, nid yn sedd y car ond wrth fy nesg. Rhag colli fy ffordd, roeddwn wedi chwilio am y lle ar 'google-maps' ac wedi dilyn rhan olaf y daith yno ar sgrin y cyfrifiadur. Wir i chi, roedd modd gweld pob tro a darllen pob arwydd, nes bod cornel fach ddieithr o'r wlad yn dod yn gyfarwydd iawn. Mi es yno ar f'union, heb unrhyw drafferth, fore drannoeth gan fy mod yn nabod y ffordd mor dda.

Ond er mor gyfarwydd y ffordd a'r adeiladau a'r arwyddion, fûm i ddim yno o'r blaen. Roedd rhaid gwneud y daith cyn y gallwn ddweud fy mod wedi bod yno. Er mor 'fyw' y lluniau, ar ryw rith o daith y bûm wrth y sgrin ar fy nesg. Un peth fyddai dweud wrthyf am yr arwydd hwn a'r adeilad arall sydd i'w gweld ar y ffordd; peth arall fyddai dweud am y bobl a welais a'r oedfa y bûm ynddi wedi gwneud y daith go iawn.

A dyheu am y peth go iawn y mae Dafydd Morris hefyd yn ei emyn cofiadwy:

*N'ad im fodloni ar ryw rith
o grefydd, heb ei grym,
ond gwir adnabod Iesu Grist
yn fywyd annwyl im.*

Gwyddai fod y fath beth i'w gael â chrefydd sy'n amddifad o'r holl gysur a llawenydd a nerth a gobaith a geir yn yr Arglwydd Iesu Grist. Gallwn fod yn gyfarwydd â ffordd Crist a gwybod am y bendithion sydd ganddo i ni. Ond nid gwybod y geiriau yw'r bywyd Cristnogol ond adnabod y Crist y mae'r geiriau'n sôn amdano. Yn y berthynas real â Duw trwy fydd yn ei Fab y mae'r gwir fywyd y mae'r Ysbryd Glân yn ei roi i ni.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Alan Davies, Tyddyn Canol, Llwybrmain gynt, Hefin a Gareth a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Bronwen, gwaig a mam a nain hoffus iawn. Bydd colled fawr ar ei hôl. Rydym yn meddwl amdanoch.

Cydymdeimlwn â Rhian ac Eifiona a'r teulu wedi iddynt golli eu brawd, Dennis, a oedd yn byw ym Mangor. Teulu o Lwybrmain wrth gwrs! Cofiwn atoch i gyd fel teulu.

Cydymdeimlwn hefyd â Lynda a'r teulu, a Gareth a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mrs Margaret Williams, 23 Tanybwllch. Mam a nain a modryb hoff iawn. Cofiwn am ei brawd, Selwyn, ei chwaer, Elsie, a'u teuluoedd. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu.

Diolch

Dymuna Alan Davies a'r teulu, 43 Penlon, Porthaethwy, Sir Fôn, (gynt o Tyddyn Canol, Mynydd Llandygái), ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn niferus pan gollodd ei wraig, Bronwen, ar ôl y Nadolig.

Diolch yn arbennig i'r Parchedig Christina McCrea am arwain y gwasanaeth mor annwyl

a theimladwy, Christine Edwards ar yr organ a Gareth Williams am ei ofal ac am drefniadau mor drylwyr a phroffesiynol.

Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at y swm o £1200 i Ward y Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

Eglwys St. Ann a St. Mair Gwasanaethau

Chwef 18: Boreol Weddi
Chwef 25: Cymun Bendigaidd
Mawrth 4: Gwasanaeth Teuluol
Mawrth 11: Sul y Fam – Cymun Bendigaidd
Mawrth 18: Boreol Weddi

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 y.b. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Os oes unrhyw un yn dymuno trefnu unrhyw wasanaeth arall cysylltwch a'r Parchedig Christina McCrea (372249) os gwelwch yn dda.

Ffair Basg

Cynhelir ein "Ffair Basg" ddydd Sadwrn, 17 Mawrth rhwng 11 - 2 o'r gloch. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael dros yr awr ginio neu baned a sgwrs ganol bore. Cofiwch alw i wneud ychydig o siopa

Chwaraeon

Golff

Llongyfarchiadau calonnog i Mena Roberts, Carneddi a fwynhaodd lwyddiant ysgubol yn ystod y flwyddyn 2017 ar gyrsiau golff drwy Ogledd Cymru. Cafodd Mena flwyddyn lwyddiannus iawn drwy

ennill chwe chystadleuaeth fel aelod poblogaidd o Glwb Golff cystadleuol iawn Maesdu, Llandudno. Mawr obeithiwn y bydd y flwyddyn 2018 yr un mor llwyddiannus iddi ac y cawn adrodd mwy am ei llwyddiannau.

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57
4HU ☎ 01248 351633

Gwellhad buan

Bu raid i Jill Bullen a Mr Leslie Foulkes o'r pentref dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch.

Cydymdeimlo

Rydym fel pentrefwyr yn cydymdeimlo â theulu'r diweddar Barchedig Aelwyn Roberts. Gwnaeth lawer yn y gymuned dros y blynyddoedd. Byddwn yn colli ei weld yn cerdded o gwmpas y pentref.

"Cawl a Chan" Gŵyl Dewi

Cofiwch am Nos Sadwrn 3ydd o Fawrth am 7.00 o'r gloch, yng Nghlwb Rygbi Bangor. Bydd Hogia'r Bonc yn ein diddanu a threfnir Raffi, gyda'r elw'n mynd tuag at Gyfeillion Ysbyty Gwynedd. Tocynnau ar gael gan Iona Jones ar 354280.

Eglwys Sant Tegai, Llandygái

Colli cyfeillion

Mae'r gynulleidfa'n galaru ar ôl colli tri o'n plith ar ddechrau mis Ionawr. Bu farw Hefina Chamberlain o Barc Penrhyn, un o gyn-wardeiniaid a chyn-drysorydd yr eglwys, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar ddechrau'r mis. Roedd yn aelod egniol o'r gynulleidfa, yn enwog am ei dawn arbennig i addurno'r eglwys ac am ei thalent i drefnu boreau coffi a barbeciws hwyliog yn ei gardd hyfryd er budd yr eglwys. Rydym yn cydymdeimlo â Suzi, Emma a Heather a'r holl deulu. Rhoddwyd Hefina i orffwys yn y fynwent ar Ionawr 20fed yn dilyn gwasanaeth a chymun bendigaidd yn yr eglwys. Ar ôl gwaeledd hir hefyd bu farw Enid Gardner o Lôn Meirion Bangor yn Ysbyty Gwynedd. Bu'n cyfrannu'n llawn i fywyd yr eglwys tan ei tharo'n wael. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Sant Tegai ar

Ionawr 13eg. Rydym yn cydymdeimlo â'i gŵr Lionel a'i dwy ferch Eleanor a Lowri a'r teulu oll.

Nid oes rhaid atgoffa'r ardal am y golled olaf, sef marwolaeth y Parchedig Joseph Aelwyn Roberts yn 99 oed. Bu'n ficer Llandegai o 1952 i 1988 ac am gyfnod bu hefyd yn gyfrifol am Eglwys Santes Fair Tregarth. Yn frodor o Flaenau Ffestiniog, dechreuodd ei yrfa yn y Gadeirlan cyn cael ei apwyntio i Landygái. Yn ystod ei fywyd hir a diddorol, bu'n ddarlledydd, yn actor ac yn gynhyrchydd gyda'r BBC ac yn awdur sawl llyfr yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Bu'n gyfrifol am wasanaeth Mabwysiadu Plant yr Eglwys yng Nghymru ac roedd yn arloeswr mewn sawl ymgyrch gymdeithasol. Mae llawer ohonom yn cofio darllen ei golofn wythnosol hwyliog yn y Daily Post. Collodd ei wraig Margaret ym mis Awst 2017. Ganwyd iddynt chwech o blant - Jane, Mark, Bridget, Felicity, Siôn a Zoë - a chydymdeimlwn â hwy a'u teuluoedd. Cafwyd gwasanaeth coffa yn yr eglwys ar Ionawr 27ain.

Raffi Santes Dwynwen a Bingo'r eglwys Nos Fawrth Ionawr 30

Bydd dathlu mawr yn nhŷ Trefor Jones, Llangefni y mis yma ar ôl ennill raffi Santes Dwynwen h.y. potel o "champagne". Tynnwyd y tocyn buddugol yn noson Bingo yr eglwys ar nos Fawrth, Ionawr 30ain. Pauline a Raymond oedd yn cadw trefn ar y miri hwyliog a gwnaethpwyd dros £318 o elw at yr eglwys! Diolch i bawb a gyfrannodd.

Cyfarfodydd y Garawys

Cwrs Garawys 25 Chwefror, Mawrth 1, 8, 15, 22 am 7 yr hwyr yn Ficerdy Pentir Croeso i bawb!

Gwasanaethau Sant Tegai

Pob bore Mercher yn Sant Tegai am 9.15 y.b. Boreol Weddi a'r Offeren yn dilyn am 10.15 y.b. Os ydych yn brin o amser - ymunwch â ni am un ohonynt - mae yna amser rhwng y ddau wasanaeth i ymadael.

Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhos Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

**Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**

**Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd**

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

**Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.**

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd L.L.P

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Bentlech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Ysgol Llanllechid

Ymweliad Tad Mali Fflur

Fel rhan o'n themâu Hedfan Fry, rydym wedi bod yn creu pob math o wrthrychau a champweithiau sy'n hedfan! Ddydd Iau diwethaf cawsom groesawu tad Mali Fflur sef Mr Terry Williams at ddosbarthiadau bl3 a 4 i siarad am ei waith fel peiriannydd yn RAF, Y Fali. Daeth a llawer o adnoddau i ni eu gweld a chawsom sgwrs ddifyr am yr holl awyrennau cyflym yno. Mae'r ymweliad wedi ysbrydoli amryw i fod yn beilotiaid y dyfodol! Diolch am ddod draw atom ni i'r ysgol.

Amgueddfa 'Byd Awyr', Dinas Dinlle

Cafodd dosbarthiadau Blynnyddoedd 3 a 4 ddiwrnod gwych pan aethant i Faes Awyr Caernarfon yn ddiweddar! Cafwyd cyfle i fynd i mewn i'r Ambiwlans Awyr a dysgu llawer o ffeithiau diddorol cyn cael cyfweld y peilotiaid. Braf oedd cael astudio'r holl arteffactau yn y maes awyr ac roedd cael mynd o gwmpas i fraslunio'n brofiad hamddenol ar ddiwedd diwrnod llawn cyffro!

Rocedi!

Daeth tad Harri Hinchcliffe, at y plant i ddangos y casgliad o rocedi 'go iawn' mae o ei hun wedi eu hadeiladu! Yn amlwg, doedd o ddim yn cael tanio'r rocedi, ond esboniodd yn eglur sut oedd y rocedi'n gweithio, ac yn fras, yr hyn oedd y tu mewn iddyn nhw. Dyna i chi beth oedd addysg i ni i gyd! Mae o'n aelod o Glwb Rocedi Prydain, ac yn gobeithio torri record byd am adeiladu rocedi! Pob lwc iddo a diolch am ei gyfraniad!

Dosbarth Derbyn -

Creu Perllan Galennig

"Calennig! Blwyddyn Newydd Dda!" Dysgu am y gwahanol draddodiadau o ddatlu'r Hen Galan ynghyd â dysgu caneuon Y Fari Lwyd a Chalennig oedd y dasg ar ddechrau'r tymor. Aethpwyd ati i greu perllan trwy fynd am dro ar hyd Lôn Fach Odro i gasglu brigau a dail o'r coed bytholwyrdd. Addurnwyd yr afalau hefyd gyda chlofs a phawb yn gwirioni ar yr arogleuon bendigedig.

Cofeb Bethesda

Fel rhan o thema'r dosbarth, aeth disgyblion blwyddyn 6 ar ddechrau'r tymor i ymweld â chofeb Bethesda, sy'n gofnod o hanes tywyll, a sylweddoli bod cymaint o drigolion yr ardal wedi colli eu bywydau yn ystod y ddau ryfel byd. Sylwyd yn fanwl ar yr enwau Cymreig. Fe welodd y disgyblion fod rhai o'r un stryd â hwy wedi marw, a llwyddodd eraill i fynd ati wedyn i olrhain hanes aelodau o'u teuluoedd.

Archifdy

Yn dilyn ymweld â'r gofeb, fe ddaeth Gwenda Williams o archifdy Caernarfon i drafod effaith yr Ail Ryfel Byd ar Fethesda. Daeth â llawer o arteffactau i'w dangos ac roedd ganddi lawer o hanesion difyr am yr ifaciwi's, y milwyr yn hyfforddi yn y mynyddoedd ac effaith dogni. Daeth yr hanes yn fyw i'r disgyblion wrth iddynt ganolbwyntio ar effaith y rhyfeloedd yn eu bro.

Y Groes Goch Brydeinig

Daeth Mr Dafydd Beech (tad Gruff a Gwenno) a Ms Lucy



Stevie a Lois yn ceisio helpu'r claf

Allin i ddosbarth blwyddyn 6 i ddangos i'r plant sut i wneud cymorth cyntaf yn gywir petaent erioed mewn sefyllfa o allu helpu eraill. Os oedd y plant yn cydnabod ar ddechrau'r sesiwn eu bod yn ddihyder, roeddent yn gwbl unfrydol erbyn y diwedd y buasant yn barod i helpu ac yn gwybod bellach beth oedd angen ei wneud mewn argyfwng. Cafwyd dau sesiwn diddorol dros ben a'r plant yn symud mewn cylchdro wrth ymwneud â gwahanol sefyllfaoedd. Diolch i Dafydd a Lucy am gynnal y sesiwn mewn modd mor ddifyr a chynnal brwdfrydedd a diddordeb y plant.

Lerpwl

Lerpwl oedd cyrchfan. Ymlaen â disgyblion blwyddyn chwech wedyn i Lerpwl. Yno buont yn ymweld â'r amgueddfa forwrol, gan weld sut y cafodd brwydr fawr Mor yr Iwerydd ei hennill. Yna aethant i amgueddfa ryfel Lerpwl, gan gerdded o amgylch yr adeilad oedd o dan y ddaear - sef y byncyr. Yno roedd ystafell fawr lle'r oedd y prif waith o fonitro'r gweithgarwch ar fôr yr Iwerydd yn digwydd gyda map enfawr ar y wal a'r holl longau yn cael eu tracio. Roedd y plant

wedi rhyfeddu gweld yr hen deipiaduron ac wrth eu boddau yn cael gwisgo siacedi'r milwyr.

Elin Taylor

Hyfryd oedd cael croesawu cyn-ddisgybl yn ôl i'r dosbarth sef Elin Taylor. Mae Elin bellach yn astudio cwrs ôl-radd Meistr yng Nghaerdydd. Cynhaliodd sesiwn gyffrous o gyfansoddi gyda disgyblion blwyddyn 6 ac aeth y pedwar grŵp ati i greu cyfansoddiadau byw ar themâu amrywiol. Cawsant wledd wrth wrando ar Elin yn chwarae darn ar y sielo yn ogystal â chlywed un o'i chyfansoddiadau. Pob hwyl Elin a thyrd yn ôl yn fuan.

Trip i fwyty Eastern Origin Bangor

Fel rhan o'r gwaith ar ddatlu dydd Calan, cafodd blwyddyn Derbyn i gyd wledd Tsieiniaidd ym mwyty yr Eastern Origin ym Mangor. Roedd pob un wrth eu boddau yn defnyddio'r 'gweill' i fwyta'r nwdls a'r reis! Dangosodd y perchennog y gwahanol addurniadau sy'n harddu'r tai a'r bwyty yn ystod y dathliadau blwyddyn newydd gan egluro eu harwyddocâd i'r disgyblion.

Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Fel y gwyddom nid yw'r sefyllfa barcio ger Llyn Ogwen yn ddelfrydol o bell ffordd. Ar ôl cynnal gohebiaeth perswadiwyd Llywodraeth Cymru gan ein Cynghorwyr Sir i gynnal asesiad o'r sefyllfa.

Cynhaliodd y Cynghorydd Dafydd Meurig a Hywel Williams A.S. gymhorthfa gynhyrchiol yn Aber. Cafwyd

gwybod hefyd, yn dilyn eu hymdrechion y bydd yr A55 heibio Aber yn cael ei hail-wynebu, a hynny gyda tharmac newydd di-sŵn.

Mae gan ein pedwar cynghorydd Sir dudalen gweplyfr fel y gallwch gysylltu a hwy, a hefyd gellir cysylltu â nhw ar y rhifau ffôn sydd yn Llais Ogwan.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol

yng Nghanolfan Cefnfaes, nos Fercher, Chwefror 28ain am 7:30. Aaron Wynne, trefnydd Etholaeth Arfon a chynghorydd sir Plaid Cymru yn Llanrwst fydd y gŵr gwâdd eleni. Bydd yn ddiddorol iawn gwrando ar weledigaeth y gŵr ifanc hwn.

Ar Fawrth 3ydd bydd ein Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes 10:00 – 12:00. Dewch am sgwrs a phanad.